
# heddwch

haf/hydref 2001
rhifyn 26
am ddim (neu gyfraniad)

cylchgrawn CND Cymru


Parhau mae'r daith....

tu fewn:

Greenham: ugain mlynedd ac yn dal i gerdded ★ Glascoed - cynhyrchwyr marwolaeth
Pen-y-bont a Phowys ddi-niwclear? ★ Menwith Hill: gweithredu i atal 'star wars'

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw**

Caerdydd - Greenham Awst 1981

# Pobl gyffredin yn ymddwyn â synnwyr cyffredin

Ann Pettitt




Ann Pettitt 1984

**Y ddau gwestiwn mwyaf cyffredin a ofynnir i mi am Greenham (nid bod llawer yn gofyn) yw - "oeddech chi'n disgwyl iddo fod yn llwyddiant pan ddechreuoch chi?" a "Beth gyflawnodd Greenham?" Yr ateb i'r cwestiwn cyntaf yw, oeddem, yn y bon, oherwydd fedren ni ddim fforddio methu. Doedd gwneud nemor ddim argraff ddim yn ddewis. Dyna pam droes y daith gerdded yn fenywod-yn-eu cadwyno-eu-hunain, ac yna'n wersyll heddwch yn y lle cyntaf, oherwydd doedd mynd ar ein Taith Faith fach ein hunain ddim yn llwyddo i greu argraff. Cawsom ein hanwybyddu, felly roedd rhaid mynd gam ymhellach.**

Mae hyn yn dal i ganiatáu i ni ryfeddu'n braf at nerth yr ymateb pan ddechreuodd yn y man, ond na, doeddwn i ddim wedi fy synnu gan greadigrwydd ac ynni anygoel y menywod a greodd y brotest honno yn yr ychydig flynyddoedd cyntaf. Roedd hyn yn rhywbeth roeddwn wedi amau erioed ei fod yno. O'r gore, ymlaen â'r feiolins. Wna'i fyth anghofio bod mewn tagfa geir a bysys ar yr M4, tagfa draffig un-rhyw, lond traffordd o fenywod yn chwerthin, chwifio, canu, gweiddi ar y 12fed o Ragfyr 1982. Wrth i mi gerdded liw nos drwy'r goedwig hardd (ac mae tuedd i anghofio fod Comin Greenham yn lle hyfryd iawn) ger y Glwyd Werdd flwyddyn yn ddiweddarach, sylweddolais fod menywod o bob rhan o'r byd Gorllewinol wedi clystyru o gwmpas yr holl danau bychain (roedd hi'n rhynllyd) - Americaniaid yma, Awstraliaid acw, menywod o'r Iseldiroedd, yr Almaen, Ffrainc ... "Sut gyrhaeddoch chi yma?" gofynnais i un criw. "Drwy logi awyren" oedd yr ateb diffwdan. Mor syml â hynny. A dyna ninnau, am fynd i Rwsia ac yn dal i straffaglu i dalu'r bil ffôn a dod o hyd i bobl i warchod y plant.

Roedd ansawdd pendant, unigryw i brotest y menywod, tipyn o hud go iawn ar ei orau. Am ddawnsio, am ganeuon, mor ddoniol nes gwneud i chi grio a phiso ar yr un pryd, am gerddoriaeth lleisiau'n siantio a chanu arallfydol (pwy o'r rhai oedd yno all anghofio cân yr ysbryd yn cael ei chanu o gwmpas naw milltit o ffens yn ngwynder niwlog iasol min nos gaeafol, yn hwyrach ar ddiwrnod y tagfeydd traffig?), am chwarae ysbrydoledig jigiau Gwyddelig, sacsoffonau a gitarau a phibau, am ddewrder y rhai a ddringodd dros weiren bigog, am gryfder a dyfal-barhad y rheini fyddai'n ailadeiladu eu gwersylloedd wedi ymweliadau dyddiol y beili. Roedd Greenham yn ei gyfnod o dwf ehangol yn bendant yn ysbrydoliaeth anferth.

Byddai'r ateb i'r ail gwestiwn yn llenwi sawl cyfrol - fe fydd, yn y pen draw, yn cymryd llawer o lyfrau, bob un ohonyn nhw'n dod i gasgliad gwahanol. Ar un lefel, gallech ddweud nad aethon ni ymhell iawn tuag at wahardd arfau niwclear. Wrth i mi sgrifennu, mae protestwyr yn dal i fod yng ngwersyll Menwith Hill. Siawns na fydd rhaid i ni ailddyfeisio'r twymwyr-coesau fel ffasiwn y gaeaf yma, a gweithgareddau cysylltiedig. Dyw SDS, NMD, neu ba bynnag lythrennau eraill maen nhw'n eu defnyddio yn ddim mwy na syniad affwysol o ddwl, wedi ei greu gan dwpsod anwybodus fel project creu swyddi ar gyfer diwydiant arfau'r UD.

Ond i feddylwyr tymor-byr UD-ganolig â'u gyrfaoedd eu hunain yn flaenoriaeth iddynt, mae'n syniad digon clyfar a hawdd ei werthu fel delwedd i gyhoedd naïf wedi ei phesgu ar ymborth Hollywood. Mi fentra'i na fydd holl bobl America mor anwybodus a thaeogaidd â hynny, ac efallai y cawn ein siomi ar yr ochr orau. Llynedd, dwi'n cofio darllen hysbysiad bach mewn papur yn dweud fod y gwladwriaethau sy'n berchen ar arfau niwclear wedi cytuno i gael gwared ohonyn nhw. Rhyw droed-nodyn bach oedd hyn, yr yr un modd ag y byddai cyhoeddiad o bwys aruthrol wedi cael ei gladdu yn nhudalennau cefn Pravda, nôl yn yr Undeb Sofietaidd. Ond doedd dim amserlen nac, yn amlwg, unrhyw fwriad gwirioneddol, felly pam wnaethon nhw drafferthu? Od iawn.


Roedd mudiad heddwch yn bod, peth anferth, byrfyfyr, symudiad, yn llythrennol, fel ton yn sgubo drwy filiynau o bobl yn Ewrop ac, i raddau llai, America. Beth wnaeth Greenham oedd cynnig ffocws. Roedd taflegrau Cruise yn chwerthinllyd o agored i brotest boblogaidd ac o'r herwydd yn anymarferol mewn democratiaeth. Ond

os ydym am gloriannu llwyddiant o ran atal y ras arfau (a dyna oedd y syniad) rhaid edrych ar y mudiad heddwch yn ei grynswth. Wrth i bobl ddechrau gweld menywod Greenham yn sefyll yn lle'r mudiad heddwch, dechreuodd agweddau galedu'n drahauster, a chrebachodd dadleuon grymus yn drafodaeth - os gallech ei galw'n hynny - o fywyd menywod Greenham fel ffordd o fyw. Adlewyrchwyd y dirywiad hwn yn y gwersyll heddwch ei hun, lle byddai menywod anoddefgar yn sgrechian at ambell ddyn a ddigwyddai alw heibio i gefnogi, cwyno am ddiffyg dewisiadau figan yn y bwyd a gyfrannwyd, neu'n gwastraffu amser yn dadlau ynglyn â sut i sillafu'r gair "women". Doedd agwedd anfeirniadol yn ymylu ar ddefosiwn ar ran rhai yn y mudiad heddwch ddim o help chwaith.

Y gwir amdani, yn fy marn i, oedd fod Greenham, i ddechrau, yn effeithiol iawn o ran gwneud i bobl eistedd i fyny a meddwl go iawn am dechnoleg niwclear - ynni niwclear ac arfau niwclear ill dau - ac am beryglon cudd fel ymbelydredd. Dwi'n credu y gellir gweld gwaddol hynny yn agweddau llawer o bobl tuag at fwydydd GM heddiw. Fe ysgogodd lawer o bobl gyffredin i ddechrau gweiddi ar y rheini mewn grym - "Y peth 'ma rydych chi'n ei alw'n MAD, mae'n wallgo, go iawn - mae'n rhaid i chi ei stopio". Rhyddhawyd doniau creadigol gan anffurfioldeb llwyr y gwersyll heddwch i ddyfeisio llawer math newydd o brotest effeithiol. Parhaodd yr effeithiolrwydd hwn am ryw dair blynedd, tipyn go lew o amser, a dweud y gwir, ac yna dechreuodd edwino - yn anorfod.

Ond do, fel rhan o fudiad i atal y ras arfau, fe newidion ni bethau. Mae mynnu, fel y gwna haneswyr asgell-dde, y byddai'r Undeb Sofietaidd wedi ildio a chynnig cwtogi ar eu harfau niwclear yn unochrog p'run bynnag, oherwydd bod eu heconomi'n cloffi, ac y gallem ni i gyd fod wedi aros gartre heb gynnal dim o'r gwrthdystiadau anferth hynny, dim o'r gorymdeithiau, dim sgrifennu'r un llythyr, dim trafferthu â'r holl wylnosau golau-cannwyll, ac ati, ac ati, yn cefnogi agwedd od o benderfyniadol. Agwedd yw hon sy'n seiliedig ar feddwl fod dynion rhesymol yn y Politbureau, gyda'r holl ffeithiau gwrthrychol ar berfformiad eu heconomi nhw ac eiddo'r gorllewin o'u blaen, wedi eistedd a dweud "Drychwch, hogia, dyw hyn ddim yn gweithio, fedr yr economi ddim ymdopi â chyfnod arall o ddatblygu arfau. Byddwch yn onest, mae'r busnes Cruise yma wedi'n trechu ni - beth am ddanfon Mikail i gynnig nifer o doriadau mawr? Yna, fe allwn ni wneud yr hyn roedden ni am ei wneud erioed, ac agor ffatri'n gwneud peiriannau golchi a thampax a chael cwpwl o loriau rhew i gario'r cig a'r llaeth o gwmpas y wlad." Sgersli bilîf. Dwi'n credu i Gorbachev gael syniadau, syniadau a oedd yn hedfan o gwmpas, fel burum, fel paill.

A ph'run bynnag, ai dyna'r pwynt - pa wahaniaeth wnaeth e? Fe brotestion ni yn erbyn y ras arfau oherwydd ei bod yn berygl marwol i'r holl fyd ac yn rhoi'r hil ddynol mewn perygl difrifol o gyflawni hunanladdiad torfol - sut fydden ni wedi teimlo pe na baen ni wedi gweithredu? Pwy sy'n gwneud hanes, p'run bynnag? Y Siartwyr yn methu dychmygu pam aethon nhw i'r fath drafferth; byddai unrhyw dirfeddiannwr rhesymol wedi rhoi'r bleidlais i'r werin bobl yn y man, ar ôl cael amser i feddwl. A'r swffragetiaid hwythau - gall unrhyw ddyn rhesymol weld ei bod yn ffôl gwadu'r hawl i fenywod bleidleisio - yr holl helbul yna am rywbeth fyddai wedi digwydd p'run bynnag! Na, os yw hanes yn dysgu unrhyw beth o gwbl i ni, y peth hwnnw yw fod pobl sy'n arfer grym mawr yn fynych wedi eu dallu gan eu camargraffiadau eu hunain, a bod synnwyr cyffredin yn trigo ymhlith y bobl gyffredin sydd, o'r naill genhedlaeth i'r llall, yn gorfod ailorseddu gwerthoedd cyfiawnder a gofal am les pawb.



## Dros fywyd ar y ddaear

Ugain mlynedd i Awst eleni, aeth grwp oed cymysg o ryw 35 o fenywod, plant a dynion ar daith o Neuadd y Ddinas, Caerdydd o dan faner Menywod dros Fywyd ar y Ddaear i gerdded i Wersyll Awyrlu'r UD yng Nghomin Greenham yn ne Lloegr. Cynlluniodd dwy fenyw, Ann Pettitt a Karmen Cutler, y daith hir ar droed yng nghegin Ann yn Llanpumsaint gyda'r bwriad o alw sylw'r cyhoedd at y ffaith fod Taflegrau Cruise niwclear-arfog yr UD yn mynd i gael eu lleoli yn Ewrop. Dyna gychwyn ymgyrch anghyffredin, yn nghyd-destun ehangach brwydr yn erbyn cynlluniau'r llywodraeth am genhedlaeth newydd o orsafoedd ynni niwclear, ymdrechion i gladdu gwastraff niwclear mewn tyllau yn y ddaear yng nghefn gwlad, a thyndra cynyddol rhwng yr Undeb Sofietaidd a'r 'Gorllewin' dan ysbrydoliaeth Thatcher/ Reagan ac, wrth gwrs, y mudiad ffeminyddol oedd yn prysur flodeuo.Ychydig iawn o sylw gafodd y daith ei hun yn y wasg er gwaethaf ymdrechion y trefnwyr. Cafodd y cerddwyr eu croesawu a'u lletya ar y ffordd mewn neuaddau eglwys, tai cwrdd ac yng nghartrefi cefnogwyr - eglwys a chapel, aelodau'r Blaid Lafur, Crynwyr ac eraill. Pan gyrhaeddon nhw Greenham, cadwynodd rhai ohonyn nhw eu hunain wrth y Brif Glwyd, cytunodd y menywod i sefydlu Gwersyll Heddwch - ac mae'r gweddill, fel maen nhw'n dweud, yn 'hanes'. Adroddir y stori mewn gwahanol ffyrdd gan bob un o'r cannoedd o filoedd o fenywod a ymwelodd â'r gwrsyll, aros yno, gweddïo drosto, a chefnogi'r gwersyll a'r gweithredu a ddigwyddodd yno.

Er ein syndod, cawn, wrth symud o gwmpas yn ein bywydau, bod ein chwiorydd Greenham, eu cyfeillion, perthnasau, plant ac wyrion yn dal i fod ym mhob man ac yn teimlo eu nerth. Ugain mlynedd yn ddiweddarach, mae'r rheini ohonom oedd â phlant ifanc bryd hynny yn mynd yn neiniau, ac mae ein hofnau am ddyfodol y babanod hyn a'u plant hwythau hyd yn oed yn fwy na'n hofnau yn y 1980au. Cydnabyddai Mikhail Gorbachev ym 1989 fod protestiadau Greenham wedi cyfrannu mwy nag ychydig tuag at dranc Wal Berlin. Mae'r cyn-Lynghesydd UD, Eugene Carroll yn ddiweddar wedi tanlinellu teimladau'r sefydliad am Greenham drwy alw am brotestiadau 'Greenham newydd' yn erbyn cynlluniau Amddiffyn Taflegrau' yr UD. Na, wnewch chi ddim lladd yr Ysbryd.

***Jill Stallard***

# Pigion y Newyddion

## Cargo marwol ger glannau Cymru

Mae'r awdurdodau yn y Swisdir wedi ailddechrau danfon gwastraff niwclear i Brydain, fwy na blwyddyn wedi i'r Swisdir roi'r gorau i ddanfon rhodenni tanwydd niwclear hesb i waith ailbrosesu Sellafield pan feirniadodd Arolygaeth y Gorsafoedd Niwcelar brosesau diogelwch esgeulus. Llwyddodd gweithredwyr Greenpeace i oedi'r confoi drwy eu cadwyno eu hunain wrth loriau yn cludo'r rhodenni ond yn y pen draw, cludwyd y saith rhoden ar fwrdd llong o Dunkirk i Sellafield drwy Fôr Iwerddon. Disgwylir saith llwyth niwclear arall o'r Swisdir i hwylio drwy Fôr Iwerddon cyn mis Mawrth nesaf.

## Cofio Chernobyl

Ym mis Ebrill, defnyddiodd ASE Plaid Cymru Jill Evans achlysur pymtheg mlwyddiant y ddamwain niwclear yn Chernobyl i alw ar yr Undeb Ewropeaidd i ddysgu gwersi o'r drychineb. Dywedodd wrth gynhadledd i'r wasg ym Mrwsel: *"Yn fy etholaeth fy hun, Cymru, wedi'r llygru yn sgîl trychineb Chernobyl, mae 147 o ffermwydd yn dal i fod dan gyfyngiadau; mae 212 dan gyfyngiadau rhannol, ac mae rhyw 180,000 o ddefaid yn dal i fod dan gyfyngiadau ar eu symud. Buwyd yn monitro'r defaid am ymbelydredd yn barhaus ers 15 mlynedd ... Nid pwer niclear yw'r ateb i newidiadau hinsawdd. Nid yw pwer niwclear fel ffynhonnell cynhyrchu trydan yn cynhyrchu $CO_2$ ond mae'r cylch tanwydd niwclear yn gwneud - y cloddio am danwydd niwclear a'r broses gyfoethogi yn ogystal â'r gwaith o adeiladu gorsafoedd niwclear, cludiant a chael gwared â gwastraff. Dim ond ar ôl 7 - 10 mlynedd y bydd gorsaf ynni niwclear yn cynhyrchu trydan â lefelau is o allyriant $CO_2$ y kW awr na gorsaf yn rhedeg ar nwy ... dyw awgrymu mai pwer niwclear yw'r ateb i newidiadau hinsawdd ddim yn mynd i'n hachub."*

Ar ddydd Chernobyl, cyhoeddodd CND Cymru, FoE Cymru, Greenpeace, Cynghrair Wrth-Niwclear Cymru a Pobl Atal Wylfa B (PAWB) ddatganiad yn galw am gau Wylfa sy'n dal heb gael caniatâd i ailagor wedi i'r orsaf gael ei chau gan Arolygaeth y Gorsafoedd Niwcelar ym mis Ebrill 2000. Dywedodd Jill Stallard o CND Cymru: *"Mae trychineb Chernobyl wedi gadael un o bob tri o blant yn Belarws yn sâl ac wedi llygru rhannau helaeth o Belarws, Gorllewin Rwsia ac Ukrain. Mae ailgychwyn Wylfa yn rhy beryglus. Mae pwer niwclear wedi chwythu ei blwc, yn anghynaliadwy ac yn sicr, nid dyma'r ffordd ymlaen i Gymru ddi-niwclear."*

## Trecwn

Mae'n debyg fod hen safle 8 milltir sgwâr y Weinyddiaeth Amddiffyn a werthwyd i gwmni Omega Pacific am bris bargen o £323,000 ac addewid o waith i bobl leol bellach yn werth miliynau lawer. Oherwydd anghydfod ymhlith ei reolwyr, mae Omega Pacific wedi gwneud datganiadau diweddar sy'n gwrthddweud ei gilydd am ei fwriad o storio gwastraff niwclear lefel ganolradd yn Nhrecwn. Fodd bynnag, y newyddion diweddaraf yw fod cwmni o'r Almaen yn bwriadu prynu'r safle a'i ddefnyddio ar gyfer 'ailwampio' arfau. Yn sicr nid y math o ddiwydiant y byddai CND Cymru wedi gobeithio amdano yng Nghymru, ond gwyddom ddigon erbyn hyn i beidio â chredu dim nes i ni ei weld!

## Powys yn tynnu nôl o'r Fforwm Ddi-Niwclear

Mae Powys, un o'r awdurdodau lleol mwyaf brwdfrydig ei gefnogaeth i fudiad yr Ardaloedd Di-niwclear yn y gorffennol, wedi rhoi'r gorau i fod yn aelod o Gymdeithas yr Awdurdodau Di-niwclear.

Os ydych yn byw ym Mhowys, da chi, sgrifennwch at eich Cynghorydd a Chadeirydd ac Arweinydd y Cyngor i fynegi eich pryder. Am fwy o syniadau a chysylltiadau, gweler tud. 13.

## Llongau Tanfor - hyll a hyllach

Ar ddechrau Mehefin dim ond un o longau tanfor 'hunter-killer' dosbarth Trafalgar y Llynges Frenhinol oedd yn weithredol. Ym mis Mai, hwyliodd HMS Tireless, y llong danfor niwclear a dorrodd lawr a threulio blwyddyn yn harbwr Gibraltar, yn destun dadlau mawr, yn ôl i Brydain. Roedd y prif atgyweiriadau wedi eu cwblhau, ond roedd problem yn dal i fod gyda falf yn y cylched oeri, nad oedd wedi cael ei thrwsio. Ar ôl ychydig oriau dychwelodd i Devonport ar gyfer y gwaith atgyweirio y disgwylir iddo gymryd rhai wythnosau. Bydd y llynges Brydeinig yn awr yn cymryd 12 o'r llongau tanfor 'hunter-killer' hyn allan o wasanaeth i'w haddasu yn sgîl y nam cyffredinol a ddatgelwyd gan dranc Tireless.

Mae'r trafodaethau am dynged adweithyddion niwclear llongau tanfor niwclear wedi tanlinellu diofalwch a diffyg gweledigaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn (WA). Mae'r llongau sy'n dirywio yn dal wedi eu hangori ar hyd glannau afon Tamar (Devonport) ac yn Faslane. Carai'r WA 'gael gwared' o'u problem ymbelydrol mor rhad ac mor gyflym â phosib. Clywyd sïon fod Trecwn yn Sir Benfro wedi ei glustnodi fel un safle storio dros-dro. Mae CND Cymru a Chynghrair Wrth-niwclear Sir Benfro wedi mynychu ymgynghoriad ISOLUS (Storio Llongau Tanfor Diddefnydd Dros Dro) y WA sy'n dal i fynd rhagddo a enwodd Loch Ewe ger Aultbea, Swydd Ross fel safle posibl lle gellid storio deunydd ymbelydrol o longau tanfor wedi eu dadgomisiynu. Mae Cyfeillion y Ddaear yr Alban yn ddrwgdybus iawn, fel y dylent fod, o ganlyniadau unrhyw ymgynghoriadau ISOLUS, sy'n honni bod yn sensitif i farn grwpiau pwyso amgylcheddol. Dywedodd llefarydd CyDd: "Mae'n ymddangos yn glir mai'r unig gyfiawnhad dros ystyried safle ger Loch Ewe yw ei fod yn cael ei weld gan yr awdurdodau fel rhywle pell i ffwrdd ac efallai na fyddai'n creu cymaint o adwaith gan y cyhoedd." Stori gyfarwydd iawn i'r rheini ohonom sy'n byw yn ardaloedd mwy pellennig Prydain.

Y cwestiwn nawr yw ble i storio 27 cynhwysydd adweithydd gwag ond llygredig (yn cynnwys Trident). Materion eraill cysylltiedig yw ailwampio llongau tanfor Trident a fydd yn creu gwastraff nawr a gwastraff yn ddiweddarach, a'r syniad gwarthus y gall cyrff y llongau fynd yn fetel sgrap. Meddai Di Macdonald o'r Gwasanaeth Gwybodaeth Niwclear:" Rhaid dod o hyd i ateb i'r broblem hon, ond dylai'r meini prawf gynnwys atal cynhyrchu mwy o wastraff llongau tanfor drwy ddod â'r rhaglen Dosbarth Astute i ben, a pheidio â rhoi'r project storio ar gytundeb i gwmnïau gwneud-elw". Ni chafodd safleoedd eu henwi'n bendant ar gyfer storio, er bod Rosyth, Devonport a Barrow yn lleoliadau tebygol.

## Diwedd Dounreay fel gwaith niwclear

Mae dyddiau Dounreay fel gwaith ailbrosesu gwastraff niwclear yr Alban wedi dod i ben, ac ataliwyd cytundeb i ailbrosesu 25 tunnell fetrig o wastraff niwclear gan Brian Wilson, sydd newydd ei benodi'n weinidog ynni y DU. Yn lle hynny, caiff y plwtoniwm marwol ei storio ar y safle am sawl degawd. Cafodd UKAEA, asiantaeth y llywodraeth sy'n rhedeg y gwaith, ac uwch swyddogion yn yr Adran Fasnach a Diwydiant yn Llundain eu synnu'n llwyr gan y cyhoeddiad, gan eu bod hwy wedi mynnu yn y gorffennol y dylai'r ailbrosesu fynd yn ei flaen.

Mae wedi synnu llawer yn y mudiad gwrth-niwclear hefyd sy'n pryderu am gefnogaeth hysbys Wilson i ynni niwclear. Mae ailbrosesu, sy'n golygu toddi'r gwahanol ddefnyddiau mewn gwastraff niwclear a'u gwahanu drwy ddulliau cemegol, yn llygru'r môr a'r awyr ag ymbelydredd. Mae gweinidogion amgylchedd Denmarc a Norwy wedi bod yn annog y llywodraeth Brydeinig i beidio â pharhau i ailbrosesu am fod hynny'n llygru eu glannau hwythau â gwastraff ymbelydrol. Mae Dounreay wedi mynd yn symbol pwerus o'r waddol fudr a pheryglus rydym yn ei gadael i genedlaethau i ddod. Mae bellach ar drothwy proses a fydd yn costio mwy na £4 biliwn i drethdalwyr ac yn cymryd o leiaf 60 mlynedd, yn y lle cyntaf. Yn awr, dylai Wilson fynd â'i bolisi i Sellafield sy'n llygru arfordiroedd a thir yr Alban, Lloegr a Chymru â'i wastraff niwclear. Cofnodwyd llygredd ymbelydrol o Sellafield mor bell i fwrdd â Chanada.

## Profion WH ar Ymladdwyr Tân

Mae Undeb y Frigâd Dân yn pryderu am ei aelodau sydd wedi bod yn agos at Wraniwm Hesb (WH) llosg. Mae unrhyw ymladdwyr tân sydd wedi bod yng nghyffiniau WH yn mynd i gael ei monitro am unrhyw ddrwgeffeithiau. Mae WH yn cael ei ddefnyddio mewn lifftiau yn ogystal â mewn arfau. Mae'n bosib fod meysydd saethu'r fyddin wedi eu llygru a gallai ymladdwyr tân fod mewn perygl wrth ddelio â thanau gwair, yn ogystal â mewn ffatrïoedd arfau fel Glascoed, ger Brynbuga. Gwyddys fod Wraniwm Hesb yn un o'r llygryddion yn SAA Llanisien, sydd yn cael ei ddadgomisiynu ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, ym mis Gorffennaf, ataliodd y Gweinidog Amddiffyn Lewis Moonie brofion ar arfau yn cynnwys WH ar feysydd saethu yn Kirkcudbrightshire yn wyneb pryder y cyhoedd am yr effeithiau ar iechyd pobl leol.

## Dwyn y llywodraeth Brydeinig ger bron Tribiwnlys

Mae Iwerddon am fynd â'r llywodraeth Brydeinig ger bron tribiwnlys rhyngwladol dros gynlluniau i agor y gwaith ailbrosesu tanwydd ocsidau cymysg (MOX) yn Sellafield. Yn ôl Iwerddon, cadwodd y llywodraeth Brydeinig yn ôl fanylion y gwaith MOX, yr oedd ar Iwerddon eu hangen er mwyn asesu'r cyfiawnhad dros agor y gwaith. Mae Prydain wedi hawlio fod y wybodaeth yn gyfrinachol. Mae'r achos yn cael ei ddwyn o dan gonfensiwn OSPAR yn ymdrin â llygredd yn ngogledd-ddwyrain Môr Iwerydd. Rhaid i'r ddwy wlad geisio cymodi cyn i'r Tribiwnlys fynd yn ei flaen.

## Clwster Canser ger Oldbury

Saif gorsaf ynni niwclear Oldbury yr ochr draw i Afon Hafren i Gas-gwent. Darganfuwyd un o glystyrau canser mwyaf arwyddocaol Prydain ymhlith plant yn byw yng nghyffiniau'r orsaf ynni niwclear. Mae ymchwil newydd gan Dr. Chris Busby wedi dangos fod pobl sy'n byw yn agos i'r afon ddwywaith yn debycach o farw o ganser na phobl mewn ardaloedd eraill, Mae plant yn y cylch 11 gwaith yn debycach o gael lwcemia. Dywedodd Dr. Busby, sydd hefyd wedi cynghori llywodraeth Iwerddon ar effeithiau radio-niwclidiau ym Môr Iwerddon ar iechyd: "*Darganfyddwyd safle clwster lwcemia plentyndod newydd. Mae'r lefel uchel o lwcemia myeloid yn awmgrymu mai ymbelydredd yw'r achos.*" Michael Holmes, ASE de-orllewin Lloegr, a gomisiynodd yr ymchwil.

heddweithredu!

**Mae'r Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-Isel yn annog pobl i sgrifennu at ASau yn galw am gyhoeddi ffigurau lewcemia o bob rhan o Brydain, fel y gellir creu darlun llawn o'r sefyllfa.**

## BNFL yn y llys dros Hinkley

Cafodd BNFL Magnox ddirwy o £100,000 yn sgîl achos llys am ollwng dôs beryglus o wastraff ymbelydrol i mewn i Fôr Hafren ym 1999. Y rheswm am hynny oedd methiant i gynnal a chadw hidlenni. Ni hysbysodd y gweithredwyr Asiantaeth yr Amgylchedd o'r digwyddiad. Gadawyd i Cesiwm 137, ymhlith radio-niwclidiau eraill, ddianc i'r aber. Mae gan Cesiwm 137 'hanner oes' o 30-mlynedd, ac mae'n effeithio ar y cyhyrau a'r organau cenhedlu yn enwedig. Mae cynlluniau ar gyfer dadgomisiynu'r orsaf Magnox yn Hinkley yn mynd yn eu blaen.

Yn ddiweddar, enillodd BNFL gyfanswm o 36 o wobrau RoSPA (Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau) am ddiogelwch. Bob diwrnod gofalus, wrth i'r gweithwyr gario eu sisyrnau'n ofalus a'r pen miniog i lawr, golchi eu dwylo cyn cinio, a gofalu peidio â rhedeg yn y coridorau, roedd gwaith ailbrosesu Sellafield BNFL yn prysur bympio 2000 miliwn galwyn o ddwr wedi ei lygru ag ymbelydredd i mewn i Fôr Iwerddon. Go dda RoSPA!

heddweithredu!

**Manylion pellach gan Shut Hinkley, Jim Duffy, 01984 632 109 neu Valerie: val.stophinkley@care4free.net**

## Trawsfynydd

Mae BNFL wedi cyhoeddi eu bod am sefydlu llwybr ymwelwyr newydd er mwyn i ymwelwyr fedru gweld peth o'r gwaith dadgomisiynu. Bydd gwaith o'r fath yn creu perygl newydd o ronynnau o lwch ymbelydrol yn yr amgylchedd o gwmpas yr orsaf. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn dal i ddisgwyl am ail gais am ganiatâd cynllunio am eu cynigion dadgomisiynu.

## Seland Newydd 'anymosodol'

Mewn naid o ddychymyg a gweledigaeth, mae Seland Newydd wedi cael gwared o'i hawyrlu fel uned ymladd. Bellach, mae'r awyrlu yn cynnwys chwe hen awyren gwylio'r glannau ac awyrennau cludiant. Mae peilotiaid yr awyrlu wedi rhybuddio y byddant yn awr yn ceisio gwaith cyflog mewn gwledydd tramor! Bwriedir cwtogi ar y llynges hefyd, i ddwy ffrigad a dwy long amddiffyn pysgodfeydd.

## Twyll Taflegrau Cenedlaethol

Pan fydd project yn cael ei wthio yn erbyn synnwyr cyffredin, mae bob amser werth edrych am resymau cudd a thwyll. Mae'r FBI, ar gais 53 aelod o'r Gyngres, yn ymchwilio i 'honiadau difrifol o dwyll a chuddio'r ffeithiau yn Rhaglen Amddiffyn Taflegrau Genedlaethol (yr UD)'. Mae Dr. Nira Schwarz wedi haeru i'r contractwyr arfau ffugio profion y system, a'i diswyddo hi pan brotestiodd. Mae arbenigwr ar daflegrau, Dr. Theodore Postol, yn hawlio y bydd y system yn gweithredu 'twyll cymhleth iawn'. Mae llawer o gefnogwyr mwyaf brwd NMD wedi derbyn 'cyfraniadau' anferth gan y diwydiant arfau. Mae'r Ysgrifennydd 'Amddiffyn' Rumsfield ar fwrdd y Ganolfan Polisi Diogelwch, un o'r sefydliadau syniadau blaenllaw o blaid 'Star Wars' sydd wedi ei gyllido'n hael gan wneuthurwyr arfau.


(Hysbyseb a osodwyd yn y New York Times gan California Peace Action.)

## Dilyn Chevaline a Trident

Mae'r holl ergydion niwclear Chevaline, a osodwyd ar daflegrau Polaris yn y 1960au wedi cael eu symud bellach o East Anglia (RAF Marham a Honington) i'r ffatri arfau niwclear yn Burghfield i gael eu dadgomisiynu. Mae Nukewatch wedi bod yn monitro cludo'r ergydion hyn ers mis Hydref 1998. Mae Nukewatch East yn bwriadu dathlu cwblhau gorchwyl Gwireddu Dinasyddion arall.

Mae'r gwaith o fonitro ergydion Trident yn parhau. Bu cryn dipyn o ddicter lleol pan ddaeth yn hysbys fod confoi ym mis Mehefin yn cario hyd at chwe ergyd 100-kiloton wedi eu cludo ar hyd ffordd ddiarhebol o beryglus yr A66 o Scotch Corner i Penrith yn hytrach na dilyn y teithlwybr arferol. Roedd yr ergydion yn cael eu cludo o Burghfield lle maen nhw'n cael eu cydosod i Coulport, lle maen nhw'n cael eu storio cyn eu gosod ar longau tanfor. Dywedodd ymgyrchydd Nukewatch, Andrew Gray: *"Gwyr unrhyw un o Ogledd Swydd Efrog neu Ogledd-ddwyrain Lloegr mor beryglus yw'r A66 ac mae meddwl fod loriau yn cario cymysgedd farwol o blwtoniwm, tritiwm a ffrwydron ar hyd y ffordd honno yn wirioneddol frawychus."*

# Gorsafoedd ynni niwclear newydd?



Mae British Nuclear Fuels Limited (BNFL) wedi cynhyrchu cynllun corfforaethol i adeiladu saith gorsaf ynni niwclear newydd ar safleoedd gorsafoedd ynni niwclear presennol ym Mhrydain. Dywed ei fod am wneud hyn er mwyn cyfrannu at ymrwymiad y llywodraeth i leihau cynhesu byd-eang. Nid yw'n dweud gair am y problemau ynghlwm wrth gynhyrchu tanwydd niwclear, dadgomisiynu adweithyddion, neu storio'r holl wastraff niwclear a gynhyrchir. Byddai'r gorsafoedd ynni'n defnyddio tanwydd ocsidau cymysg (MOX) a dywed BNFL fod ganddo'r cynlluniau angenrheidiol. Mae am i'r llywodraetyh warantu y gellid adeiladu'r gorsafoedd fel rhan o un raglen barhaus heb ymchwiliadau cyhoeddus a heb fod angen cyfranogaeth y cyhoedd ac asesiadau affaith amgylcheddol.


Yn wyneb datganiad Maniffesto Etholiad 2001 Llafur newydd fod "egni niwclear ar hyn o bryd yn chwarae rhan bwysig mewn sicrhau amrywiaeth ein ffynonellau cynhyrchu trydan", rhaid i ni sicrhau fod y llywodraeth yn cael gwybod am ein gwrthwynebiad i gynlluniau BNFL.

Er mwyn lleihau problemau cynhesu byd-eang a sicrhau amrywiaeth o fewn ein diwydiant cynhyrchu trydan, rhaid i ni annog y llywodraeth i fynd ati o ddifrif i hyrwyddo systemau egni adnewyddadwy di-lygredd. Roedd adroddiad ym 1990 gan yr Adran Egni yn cytuno fod cost cynhyrchu trydan drwy ddefnyddio ynni'r tonnau yn hanner cost cynhyrchu trydan ag ynni niwclear (heb hyd yn oed ystyried costau dadgomisiynu a storio'r gwastraff sy'n gysylltiedig ag ynni niwclear).

Cofiwch mai ni yw cyflogwyr ein ASau a'r llywodraeth. Rhaid gwneud iddyn nhw wrando ar ein hofnau a'n dymuniadau.

**Rod Stallard**

# Menywod Greenham yn dal i gerdded



Mae Karmen Thomas ac Ann Pettitt yn nodi ugainmlwyddiant Taith Menywod dros Fywyd ar y Ddaear o Gaerdydd i Greenham drwy gerdded drwy Anialwch Namibia rhwng y 9fed a'r 15fed o Hydref i godi arian i'r Grwp Cynghori ar Ffrwydron (Tir). Elusen yw hon sy'n clirio ffrwydron tir a helpu pobl gyffredin i ailadeiladu eu cymunedau ar ôl cael eu dal yng nghanol gwrthdaro treisgar. Mae'r ddwy fenyw wedi galw sylw at y cysylltiadau rhwng natur anwahaniaethol arfau niwclear a ffrwydron tir.

Cynhaliwyd arwerthiant o beintiadau a lluniadau Ann, lluniau a dynnwyd ar deithiau yn Iwerddon, Morocco a gartref yng Nghaerfyrddin ym mis Mehefin. Gwerthodd gopïau hefyd o frasluniau a dynnodd yn ystod arhosiad o ddwy wythnos yng Nghomin Greenham ym 1984 a chyfres o chwe ffotograff hynod bwerus gan Olivia Elliot.

Mae Ann a Karmen yn gobeithio y bydd aelodau CND Cymru am gefnogi eu taith Namibiaidd drwy eu noddi. Mae'n bosib fod rhai copïau o luniau Greenham ar gael o hyd. I gyfrannu arian neu am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01559 384 671/01269 826 215.

# Bomiau clyfar a thranc sancsiynau clyfar

Mae wyneb bythol-gyfnewidiol rhyfel yn gorfod newid ei ffurf beunydd i barhau. Sancsiynau clyfar yw'r ffurf ddiweddaraf o ryfel.


Wrth i mi sgrifennu'r adroddiad yma, mae hanesion yn dod i law am y cyrchoedd bomio clyfar diweddaraf gan awyrennau rhyfel Prydain a'r UD yn erbyn Irac. Digwyddodd yr ymosodiad ar Qadha' Talla'far yn ngogledd Nineva (ardal Gristnogol yn bennaf) ar y 19eg o Fehefin. Ymosododd yr awyrennau ar gae pêl-droed gan ladd tri-ar-hugain o bobl rhwng pedair a 30 oed ac anafu unarddeg arall. Collodd un menyw bedwar mab. Hon yw'r bennod ddiweddaraf yn y cyrch bomio mwyaf a mwyaf dinistriol yn hanes y byd yn erbyn targedau isadeiledd allweddol fel gweithfeydd triniaeth dwr a chynhyrchu trydan. Gwneir hyn yn waeth byth gan effeithiau bron unarddeg mlynedd o esgeulustod a achoswyd gan sancsiynau.

Yn y cyfamser, mae Prydain yn ceisio sicrhau y bydd llai o blant Irac yn goroesi'r sancsiynau drwy eu hailfedyddio'n sancsiynau clyfar a gwneud yn siwr na fydd llacio ar y gwaharddiad llwyr bron ar y buddsoddi tramor mae ei angen i ailadeiladu isadeiledd ac economi Irac. Ar ôl methu yn eu hymdrechion i wthio'r drafft benderfyniad Prydeinig drwy Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, llwyddodd cynrychiolwyr yr UD a Phrydain i ddarbwyllo'r Cyngor Diogelwch i gymeradwyo estyniad o fis i'r rhaglen Olew am Fwyd, yn lle'r chwe mis arferol. Gwnaeth Dirprwy Weinidog Tramor Rwsia, Sergei Ordzhonikidze wrthwynebiad Rwsia yn glir, a datgan: "Ni allwn gytuno â drafft benderfyniad o'r fath ... Yn ei hanfod, mae'n rhewi'r sefyllfa bresennol, gan gadw sancsiynau gyda chanlyniadau annerbyniol i bobl ac economi Irac yn niffyg unrhyw gamau tuag at ddiarfogi." Mae'r bygythiad gan Rwsia i nacáu'r mesur yn golygu na fydd yr UD a Phrydain yn bwrw ymlaen â'r penderfyniad hwn. Mae pryder difrifol yn awr, os na bydd Cyngor Diogelwch y CU yn mabwysiadu polisi sancsiynau sydd wrth fodd yr UD a Phrydain, y byddant yn dilyn polisïau unochrog mwy milwriaethus fel y gwnaethant ym mis Rhagfyr 1998.

Fel y dywedodd y cylchgrawn, ceidwadol fel arfer, yr Economist: "Mae polisi Prydain o sancsiynau clyfar yn cynnig asbrin lle mae angen llawdriniaeth".[1] Roedd gormod o eitemau yn cael eu gwahardd yn y cynnig newydd. Er bod yr Ysgrifennydd Cyffredinol wedi galw am i'r rhestr o eitemau a ganiateir i gynnwys popeth nad yw ar y "rhestr 1051" fondigrybwyll o eitemau defnydd-deublyg posibl, y gallai fod angen eu monitro neu eu gwahardd yn llwyr,[2] roedd y cynnig newydd yn cynnwys rhestr 30-tudalen newydd o eitemau gwaharddedig na chafodd aelodau'r Cyngor Diogelwch ei gweld hyd yn ddiweddar.[3]

Ar hyn o bryd, mae gan yr UD a Phrydain werth $3.71 biliwn o nwyddau wedi eu 'rhewi', i'w hatal rhag cyrraedd pobl Irac. [4] Mae Ffrainc a Rwsia wedi blino ar gefnogi safbwynt yr UD ar Irac ac wedi blino dwyn costau economaidd y gyfundrefn sancsiynau. Ar hyn o bryd, mae 25% o'r elw o werthiant olew Irac yn cael ei ddargyfeirio i Gomisiwn Iawndal y CU (CICU) sy'n prosesu hawliadau am iawndal gan ddioddefwyr goresgyniad Kuwait gan Irac ym 1990. Un cwmni a ddioddefodd bryd hynny oedd Corfforaeth Petroliwm Kuwait y dyfarnwyd iddi $15.9 biliwn ym mis Hydref 2000. Mae gan nifer o gorfforaethau trawswladol Prydain a'r UD hawliadau ger bron y Comsiwn hefyd.[5]

Byddai cynigion Prydain wedi golygu y byddai 30% o'r elw o werthu olew yn cael ei ddargyfeirio i CICU.[6] Byddai hyn yn dwyn ymaith hyd yn oed fwy o'r refiniw y mae cymaint o'i angen ar Irac i ailadeiladu ei isadeiledd sylfaenol. Yn ôl Prydain, bwriedir i'r 5% ychwanegol hwn greu cronfa "iawndal i gymdogion Irac am golledion yn y dyfodol." Mae torwyr sancsiynau wedi helpu pobl Irac i gael triniaeth feddygol. Doedd y cyffuriau angenrheidiol ddim ar gael oherwydd sancsiynau ac roedd rhaid eu smyglo i mewn. Mae Prydain a'r UD bellach yn benderfynol o atal y fasnach draws-ffiniol angenrheidiol yma, a felly bydd angen talu iawndal i'r cymdogion. Mae Denis Halliday a Hans von Sponeck, a ymddiswyddodd ill dau fel Cydgysylltwyr CU y Rhaglen Ddyngarol yn Irac fel protest yn erbyn sancsiynau, wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg yn ddiweddar yn dweud fod "sancsiynau clyfar" yn "tynhau'r rhaff am gorn gwddw dinasyddion cyffredin Irac".



Y broblem gyda sancsiynau clyfar yw y byddent wedi effeithio yn yr un modd ar Irac â'r bomiau clyfar yn ystod Rhyfel y Gwlff. P'run ai fod yr arfau'n dwp neu'n glyfar, bydd y targedau - pobl Irac - yn dal i farw.

***Dave Rolstone***

1. Economist, 24 Chwefror 2001.
2. 14 Mai 2001, para 125, http://www.un.org/Depts/oip/reports/S2001_505.pdf
3. http://dailynews.yahoo.com/h/ap/20010523/wl/un_iraq_13.html
4. Adroddiad Ysgrifennydd Cyffredinol y CU 14 Mai 2001, para 18, http://www.un.org/Depts/oip/reports/S2001_505.pdf
5. http://www.mre.gov.br/acs/interclip/jornais/setembro/wpost28d.html
6. http://www.washingtonpost.com/wp-dyn/articles/A58172-2001May21.html

## Ymgyrchu - y diweddaraf




graphic: brian kavanagh

## Gweithredu parhaus yn yr Alban yn erbyn Trident

Mae'r ymgyrchu yn erbyn system arfau niwclear Prydain yn parhau'n ddi-dor yn yr Alban. Mewn gweithred yn y stordy arfau niwclear yn Coulport ar ddechrau Wythnos Weithredu Trident Ploughshares, achosodd pum gweithredydd gryn rwystr i waith y ganolfan drwy eu cloi eu hunain cyn newid shifft yn y bore bach. Restiwyd y pump.

Ym mis Mehefin ataliodd grwp rhyngwladol o weithredwyr gwrth-niwclear gonfoi arfau niwclear o dair lori yn cario ergydion niwclear Trident a nifer o gerbydau cefnogol ar y ffordd rhwng Stirling a Dumbarton, a arweiniodd at restio 11 o bobl gan Heddlu Srathclyde a Chanolbarth yr Alban. Dywedodd llefarydd ar ran Nukewatch a oedd yn y llys i gefnogi'r gweithredwyr wrth iddyn nhw ymddangos yn y llys: *"Ers blynyddoedd, mae pobl leol wedi bod yn rhybuddio'r heddlu, y cyngor a gwleidyddion am berygl yr arfau dinistr torfol hyn a'r ffaith eu bod yn cael eu cludo drwy Stirling yn rheolaidd. Does yr un ohonyn nhw wedi gwneud dim oll. Pan fo dinasyddion cyfrifol yn gweithredu i alw sylw at beth sy'n digwydd, maen nhw'n cael eu gwahardd o'r ardal. Y bomiau ddylai gael eu gwahardd!"*

Mae'r achosion llys yn parhau, yn deillio o weithredoedd a ddigwyddodd ddechrau'r flwyddyn ddiwethaf. Mae pob achos yn gyfle i ymgyrchwyr ddadlau eu hachos. Treuliodd Mary Millington o Gasnewydd, Gwent wythnos yn y carchar ar gyhuddiadau yn ymwneud â gwrthod talu dirwyon a gawsai am ei gweithred ym mis Chwefror 2000. Meddai Mary:

*"Mae system arfau niwclear Prydain yn aflednais, yn anfoesol ac yn anghyfreithlon. Mae'n bygwth miliynau o ddinasyddion diniwed ac amgylchedd popeth sy'n byw ar y blaned hon, bob dydd. Mae'r paratoadau ar ryfel eu hunain yn llygru'r ddaear ac yn creu braw a pharanoia rhwng y gwledydd ... Mae arfau niwclear yn cael eu dyfeisio, eu hadeiladu a'i gosod yn eu lle yn fy enw i. ac mae'n ddyletswydd moesol arnaf i rwystro'r paratoadau gwrthun hyn ar gyfer llofruddiaeth dorfol."*

## Wendy Lewis yn y Llys

Wendy Lewis o Fedwas, de Cymru oedd 'rhif 1' i gael ei restio yn ystod y Gwarchae Mawr ym mis Chwefror. Bydd yn ymddangos ger bron Llys Ardal Helensborough ar y 12fed o Fedi wedi ei chyhuddo o darfu ar yr heddwch ac, yn rhyfedd ddigon, gwrthod cael ei restio. Dywedodd Wendy wrth *Heddwch*:

*"Fi oedd un o'r rhai cyntaf i gael fy restio. Roeddwn wedi mynd i ofyn i'm gwr, oedd wrthi'n protestio'n heddychlon, a oedd e'n iawn, ac fe'm codwyd yn gorfforol (ddim yn rhy anodd, gan mod i'n 7 stôn 10) yn canu, gan blismon, a aeth â fi i'r cerbyd. Fe gydweithredais yn llawn a dweud wrtho fy mod i yno er mwyn fy mhlant - Carwyn, 6, a Tad, 7. Cefais fy ngadw wedyn mewn cell ar fy mhen fy hun o 8 am tan tua 6 pm. Doedd e ddim yn brofiad braf. ond beth yw 10 awr o ddiflastod o'i gymharu â'r peryglon a wynebir gan blant yng ngwledydd y Trydydd Byd sydd mor anffodus a chael eu geni'n Iraciaid, Palestiniaid neu Serbiaid, neu ba wlad bynnag a ystyrir yn wladwriaeth anystywallt ar y pryd, ac felly'n darged dilys i arfau niwclear."*

**heddweithredu!** **Ymrwymwch, gweithredwch neu gefnogwch Trident Ploughshares: Trident Ploughshares, 42-46 Bethel Street, Norwich NR2 1NR ebost: tp000@gn.apc.org (0845 45 88 366 )**

## Eglwys yr Alban yn cytuno fod cyfiawnhad dros brotestio di-drais 'anghyfreithlon'

Mae Cynulliad Cyffredinol Eglwys yr Alban wedi galw am fwy o wrthdystio yn ôl cydwybod - p'run ai bod hynny'n torri'r gyfraith ai peidio. Pasiodd gynnig sydd, yn ei hanfod, yn galw ar y llywodraeth i weithio tuag at ddadgomisiynu'r holl fusnes arfau. Yn ei Gynulliad Cyffredinol, dywedodd y Gwir Barchedig John Cairns, offeiriad y plwyf yr effeithiwyd fwyaf arno gan brotestiadau Faslane ym mis Chwefror pan restiwyd saith gweinidog, fod hyn yn rhan o draddodiad balch o anghydffurfio a oedd, yn y pen draw, wedi arwain at newid. Yn Ne Affrica o dan apartheid, roedd protestwyr wedi dioddef artaith a llofruddiaeth. "Mae'r eglwys wedi cefnogi'r fath brotestiadau ers amser maith. Byddai'n drasiedi, i'm tyb i, oni all yr eglwys ddeall fod cydwybod pobl weithiau'n eu gyrru i dorri'r gyfraith. Weithiau, mae'r canlyniadau'n waeth na noson neu ddwy yng ngharchar Greenock", meddai. Rhybuddiodd Patrick Hodge QC, Procuradur yr Eglwys, y comisiynwyr y byddent yn rhoi anogaeth i dorri'r gyfraith, ond aethant yn eu blaen p'run bynnag. Dywedodd y Parch Alan McDonald, cynullydd y pwyllgor, y gallai pob un o'r pedair llong danfor Trident gario dinistr cyfwerth â 750 bom Hiroshima. Dywedodd fod cefnogaeth pobl ar y protestiadau i safbwynt yr eglwys a'i gweinidogion yn erbyn arfau niwclear wedi ei galonogi. Cefnogodd y Cynulliad waharddiad llwyr ar allforio arfau gan Brydain hefyd.

**Nawr 'te, yr Eglwys yng Nghymru, beth amdani?!**

## Gwrthdystiad Star Wars yn Llundain




Cynhaliodd CND Prydeinig brotest 'Na i Star Wars' yn Llundain ym mis Ebrill. Wedi gwrthdystiad a gwarchae y tu allan i Downing Street cerddodd yr ymgyrchwyr i Sgwâr Trafalgar. Daeth pobl ynghyd o bob rhan o Brydain, gan gynnwys yr actor Emma Thompson, Caroline Lucas ASE, yr awdur Iain Banks a Darth Vader ei hun (drwy garedigrwydd CND Ieuenctid a Myfyrwyr!).

## Aldermaston

. Treuliodd cymysgedd o ymgyrchwyr gwrth-niwclear, yn cynnwys rhai o Trident Ploughshares, Gwersyll Heddwch Menywod Aldermaston a grwpiau CND benwythnos hir ym mis Mai yn cymryd rhan mewn gweithred yn erbyn ffatri arfau niwclear Aldermaston. Mewn ymateb, restiodd casgliad llawn mor gymysg o heddluoedd 51 o bobl a chi - a chawsant eu chuddo o gamddefnyddio proses y gyfraith am ddwyn ffug gyhuddiadau, a ollyngwyd yn ddiweddarach. Awgrymodd ymgyrchwyr y dylai'r heddlu lleol ofyn cyngor heddlu Strathclyde, sydd â chryn brofiad o oruchwylio protestiadau Trident Ploughshares yn Faslane.

**heddweithredu! I gael gwybod beth sy'n digwydd, cysylltwch â Trident Ploughshares, 42-46 Bethel Street, Norwich NR2 1NR ebost: tp000@gn.apc.org (0845 45 88 366) Gwersyll Heddwch Menywod Aldermaston d/o 157 Lyndhurst Road, Worthing, Sussex (07808 553 778)**

## Ploughshares Bara nid Bomiau

Cafodd y Tad Martin Newell a Susan van der Hijden ill dau ei rhyddhau o'r carchar ar ôl cwblhau chwe mis o'u dedfryd o 12 mis am achosi niwed i lori mewn confoi oedd yn cludo ergydion niwclear o RAF Wittering yn Swydd Caergrawnt.

Mae'r ddau brotestiwr wedi derbyn cefnogaeth ysgubol am eu gweithred gan lawer o bobl o bob maes. Dywedodd y Tad Martin, *"Roeddem wedi ceisio pob modd cyfreithlon fel sgrifennu at y llywodraeth, ond doedd dim ateb. Heddiw, y cwbl mae ar wleidyddion ei eisiau yw eich distawrwydd a'ch trethi."*

**gweler www.geocities.com/londoncatholicworker neu cysyllter â Ciaron O'Reilly: (07947 569 577)**

heddweithredu!

## Wylfa wylofus

Mae'r Wylfa, gorsaf ynni niwclear fwyaf BNFL, bellach wedi bod ar gau am fwy na blwyddyn wedi i asiadau diffygiol gael eu darganfod ar bibellau ager. Mae BNFL, y cwmni sy'n perthyn i'r llywodraeth, wedi beio ei golledion o £210 milliwn y llynedd ar golli cynhyrchu yn Wylfa. Mae bellach wedi cyhoeddi yr hoffai i'r llywodraeth fynd yn gyfrifol am Magnox er mwyn iddo yntau allu bwrw ymlaen â phreifateiddio. Byddai rhwymedigaethau amgylcheddol dadgomisiynu'r hen adweithyddion Magnox oedrannus yn rhy fawr i'r un cwmni masnachol eu hysgwyddo. Mae BNFL yn dal i fynnu y bydd Wylfa'n ailagor cyn hir ar ôl arolygiad gan Arolygaeth y Gorsafoedd Niwclear (AGN). Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am broblemau Wylfa. Mae'r AGN wedi gwrthod ateb cwestiynau am gyflwr yr adweithyddion ac oblygiadau diogelwch ailgychwyn. Mae gweithwyr gwrth-niwclear yn ceisio annog y Cynulliad Cenedlaethol i arwain y ffordd ar faterion diogelwch niwclear, yn enwedig gan fod y llywodraeth Lafur Newydd yn ymddangos fe pe bai o blaid ynni niwclear. Ym mis Tachwedd 2000 cytunwyd ar goncordat rhwng y Gweithgor Iechyd a Diogelwch a'r Cynulliad Cenedlaethol a ddywedodd:

*"Mater i'r GID yw Diogelwch Niwclear, ond mae'n bwysig i'r Cynulliad oherwydd y rhan y byddai'n ei chwarae pe bai anap niwclear, ac oherwydd y cysylltiad rhwng diogelwch niwclear a diogelu'r amgylchedd, sydd yn fater i'r Cynulliad."*

Ni fyddai'n helpu llawer pe bai'r mater hwn yn mynd yn destun cynnen bleidiol; y canlyniad pwysicaf o safbwynt iechyd cymunedau a'u hamgylchedd yw cau Wylfa a sicrhau nad adeiledir yr un orsaf niwclear newydd ar y safle.

**heddweithredu! 'Sgrifennwch at un neu fwy o'ch ACau. Gofynnwch iddyn nhw i bwyso ar Weinidog Amgylchedd y Cynulliad, Sue Essex, i drafod Wylfa a swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion yn ymwneud â diogelwch niwclear.**

**Cysylltiadau defnyddiol: Rod Stallard: (gweler Cysylltiadau tud. 16) Dylan Morgan PAWB: (01248 750 218) Hugh Richards CWNC: (01982 570362) Bridget Woodman Greenpeace: (020 78658248).**

## Arolygiad troseddau rhyfel Kleine Brogel

Ar Ebrill 16eg, roedd wyth o ymrwymwyr Trident Ploughshares ymhlith yr 850 o weithredwyr a aeth i mewn i wersyll awyrlu Kleine Brogel yng Ngwlad Belg lle cedwir arfau niwclear yr UD yn barod. Cafodd y weithred, a ddisgrifiwyd fel "Arolygiad Troseddau Rhyfel" ei threfnu gan Forum for Peace Action (cangen Fflandrys o War Resisters International) a For Mother Earth. Roedd cyfanswm o 1500 yn bresennol a'r bwriad oedd codi mater yr arfau hyn yn llysoedd barn Glwad Belg. Roedd cryn gefnogaeth wleidyddol i'r weithred.

heddweithredu!

**Mwy o wybodaeth o wefan *For Mother Earth*, sef www.motherearth.org**

## Cymdeithas Cenhedloedd Unedig Cymru: gweithio i hyrwyddo rheolaeth ar arfau a diarfogi

Mae Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig (CCU) yn rhedeg ymgyrch dair-blynedd i hyrwyddo agenda ddiarfogi fyd-eang ar gyfer yr 21ain ganrif. Mae CCU Prydeinig yn mabwysiadu dull cyfannol o fynd ati, yn dadlau na ellir sefydlu rhaglen real a chynaliadwy o ddiarfogi heb leihau/dileu tlodi, datblygu cynaliadwy, diogelu'r amgylchedd a chefnogi hawliau dynol ym mhedwar ban y byd ac, yn yr un modd, na ellir dileu tlodi, datblygu mewn modd cynaliadwy, diogelu'r amgylchedd na chefnogi hawliau dynol heb ddiarfogi parhaus. Fel rhan o gynlluniau eleni, cynhaliwyd Gwrandawiadau Diarfogi yng Nghymru yn y gwanwyn. Roedd y gwrandawiadau hyn, gyda mwy na 60 yn cymryd rhan, yn Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd, yn hysbysu pobl am y materion dan sylw a phwysleisio'r angen am weithredu ar y cyd. Yn gynnar ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd Lobi Ddiarfogi Seneddol pan ofynnwyd i ASau hyrwyddo a chefnogi mwy o weithredu gan y llywodraeth ar reoli arfau a diarfogi.

heddweithredu! **Er mwyn chwarae rhan yn CCU a'r Rhaglen Ddiarfogi, cysyllter â gweithwraig CCU Cymru,**

**Helen Harris (01792) 869 267**

**ebost: helen.unawales@commonwealth.net**

## Wers ddisglair yng nghelfyddyd protestio

Cyrhaeddodd y llwyth cyntaf o wastraff o'r Almaen i ddod i Sellafield ers tair blynedd Ddociau Barrow ym mis Ebrill wedi taith lawn-protestiadau o'r Almaen. Fe'i croesawyd gan ddau ymgyrchydd dewr. Cafodd Martin Forwood ei restio ar ôl ei gloi ei hun wrth glwydi'r dociau. Cymerodd ddwy ymgais gan ddwy frigâd dân i'w ryddhau. Oedodd hynny'r cludo am awr a hanner o leiaf.

Meddai'r 'Barrow Evening Mail':

*"Pleser oedd gweld dim ond un dyn yn profi y gellir gydag ychydig fedr a phenderfyniad - a mymryn o ddiffyg sylw i'w dyletswydd gan yr awdurdodau - oresgyn popeth roedd y wladwriaeth rymus wedi gallu ei grynhoi ar yr achlysur hwn i sicrhau fod ei gargo dadleuol o wastraff niwclear yn symud yn ddirwystr. Yn ddi-os, roedd yn wers ddisglair yng nghelfyddyd protestio - a llwyddodd i ddal y rheini oedd i fod i sicrhau na fyddai dim byd chwithig yn digwydd yn hepian."*

Gydag ailgychwyn cludo tanwydd niwclear hesb yn ôl a blaen o dir mawr Ewrop, bydd 200 o fflasgiau eraill yn cael eu cludo ar long i Sellafield yn y pedair blynedd nesaf. Mae cludo'r deunydd ynddo'i hun yn fygythiad sylweddol i'r rheini ohonom sydd yn byw ar hyd y ffordd.

heddweithredu!

**Yn enwedig os ydych yn byw ar lannau Cymru, cysylltwch â Swyddfa Iechyd yr Amgylchedd neu Swyddfa Diogelu'r Cyhoedd eich cyngor lleol a gofyn pa gynlluniau sydd ganddynt i ddiogelu'r amgylchedd pe un o'r llongau hyn sy'n cario deunydd niwclear yn cael damwain. Danfonwch gopi o'r llythyr ar eich cynghorydd lleol ac at Gadeirydd y Cyngor. Os oes arnoch angen cymorth gydag enwau a chyfeiriadau, cysylltwch ag CND Cymru (gweler Cysylltiadau tud. 16).**

## Grwpiau heddwch ac amgylcheddol yr UD yn dwyn achos yn erbyn y Llynges

Mae tri mudiad heddwch a'r amgylchedd wedi cyfuno i gofrestru hysbysiad 60-diwrnod yn erbyn y Canolfan Longau Tanfor y Llynges, Bangor, UDA (SUBASE, Bangor). Tramgwyddwyd Deddf Rhywiogaethau Dan Fygythiad (ESA) gan waith ailwampio'r Llynges ar gyfer uwchraddio taflegrau TRIDENT II (D-5) heb unrhyw ymgynghori o flaen llaw o dan Adran 7(a) o'r ESA. Ers y penderfyniad i leoli llongau tanfor Trident niwclear-arfog yn Subase, Bangor yn Connecticut, mae llawer mwy yn hysbys yn awr am beryglon y taflegrau a'r bygythiadau i'r ardal. Mae gwybodaeth newydd hefyd yn dangos bygythiad cynyddol gan donnau anferth (tswnamïau) a daeargrynfeydd yn ardal Puget Sound. Mae'r glymblaid o fudiadau sifil ynddi'i hun yn gyfeiriad newydd i'r ymgyrch, a gobeithiant y gallant lwyddo i brofi fod diogelwch amgylcheddol a'r system longau tanfor Trident yn gwbl anghymarus.

**i gefnogi, neu am ragor o wybodaeth, cysyllter â Ground Zero Center for Nonviolent Action, 16159 Clear Creek Road NW, Poulsbo WA 98370, UDA.**

**Gwefan: www.@gzcenter.org**

heddweithredu!

## Sori!

Ymddiheuriadau i Blaid Lafur Sosialaidd Cymru am i ni eu gadael allan o'n harolwg cyn-etholiad o bleidiau gwleidyddol Cymru. Ymladdodd y blaid chwe sedd yng Nghymru: Dwyrain Casnewydd, Islwyn, Merthyr Tudful, Llanelli, Gwyr a Phreseli Penfro.

Safbwynt Plaid Lafur Sosialaidd Cymru ar y materion a drafodwyd yn *Heddwch* yw:

**1. Arfau Niwclear Prydeinig**

Dylid dileu pob arf niwclear ar unwaith.

**2. Ynni Niwclear**

Dylid cau pob gorsaf ynni niwclear a chyfleusterau storio ac ailbrosesu Sellafield ar unwaith.

**3. NMD**

Dylid dwyn achos llys i weld a yw safloedd yr UD ym Mhrydain yn gyfreithlon. Ni ddylem ein gadael ein hunain i fod yn darged rheng-flaen i'r UD.

**4. Wraniwm Hesb**

Rydym yn llwyr wrthwynebu cynhyrchu, profi neu ddefnyddio arfau'n cynnwys y deunydd yma.

Dywed eu maniffesto: *" Mae'r Blaid Lafur Sosialaidd wedi ymrwymo i 'droi cleddyfau'n sychau'. Byddem yn rhyddhau'r biliynau a werir ar hyn o bryd ar arfau angau a dinistr a'u defnyddio i adeiladu/adnewyddu cartrefi, ysgolion ac ysbytai, ailadeiladu ein hisadeiledd diwydiannol, a chreu miliynau o swyddi - yn cynnwys swyddi ar gyfer y rheini sy'n cael eu cyflogi yn y diwydiant amddiffyn ar hyn o bryd."*

Am fwy o wybodaeth, cysyllter â'r Ysgrifennydd: Liz Screen, 3 Ffordd Waterloo, Caerdydd CF23 5AD


Tel: 029 20 491144

### Karen Sinclair AC Llafur De Clwyd

Carem ymddiheuro hefyd i'r Aelod Cynulliad Karen Sinclair sy'n AC Llafur ac nid, fel y dywedwyd ar dudalen 3 o Heddwch rhif 25, yn Ddemocrat Rhyddfrydol! Roedd Karen yn un o ddeuddeg AC a gefnogodd weithred Trident Ploughshares yn Faslane ym mis Chwefror.

# Ymdrochi wrth y Filton Hilton

## Canolfan Bwrcasu Arfau'r WA ym Mryste




Mae Canolfan y Weinyddiaeth Amddiffyn (WA) yn Filton Abbey Wood yn balas gwyn, disglair gwerth miliynau, lle mae'r WA yn gwneud ei gwaith pwrcasu ar gyfer lluoedd arfog Prydain. Does gan lawer o bobl ym Mryste ddim syniad am swyddogaeth yr adeilad - mai dyma lle prynir arfau wraniwm hesb, arfau ar gyfer system longau tanfor niwclear Trident, ac arfau ymbelydrol eraill a all ddinistrio bywyd am filoedd o flynyddoedd.Penderfynodd y grwp *Depleted Action Against Militarism and Depleted Uranium* (DAAMDU) drefnu ymweliad, i wneud pobl yn ymwybodol o'r cysylltiad rhwng adeilad y WA ym Mryste ac erchylltra WH yn Irac a'r Balcanau.

Daeth sawl dwsin ohonom ynghyd ar y dydd. Roedd CND Cyn-Luoedd Arfog Bryste yno, ynghyd ag aelodau DAAMDU, protestwyr Trident Ploughshares, gweithredwyr gwrth-niwclear, Crynwyr, ac aelodau o'r Blaid Werdd. Crogwyd placardiau am effeithiau WH a baneri'n protestio yn erbyn 'Star Wars' ar y rheilins isel wrth y pwll addurniadol ar y ffordd fawr lle gallai modurwyr eu gweld, a chanu corn i gefnogi. Tra chwaraeai trympedwr, dosbarthwyd ein taflenni i weithwyr y WA wrth iddyn nhw ddod o'u trenau. Dosbarthwyd taflenni eraill mewn canolfannau siopa cyfagos. Yn ddiweddarach, rhedodd grwp i lawr y ffordd a chrogi baner anferth ar bont ar draws y ffordd. "MOD - MINISTRY OF DEATH" meddai honno, gyda symbolau ymbelydredd du a melyn mawr y naill ochr i'r geiriau.

Tua wyth o'r gloch, ymunodd y Cynghorydd Ray Davies o Gaerffili a David Rolstone o Sir Benfro, dau o hen lawiau'r mudiad heddwch, ac ymgyrchwyr yn erbyn y sancsiynau ar Irac, â dau o Fryste a dringo dros y rheilins i mewn i'r ffos addurniadol sy'n hanner-amgylchynu adeilad y WA.

Ymddangosodd heddlu'r WA a sefyll yno'n gwylio wrth i ni nofio ar draws y ffos, yn llusgo baner yn dwyn y geiriau: "MOD - Purchasers for Nuclear Death." Edrychai gweithwyr oedd yn croesi'r bont i fynd i'r gwaith yn syn arnom wrth i ni glymu'r faner wrth y goleuadau diogelwch. Ar ôl nofio'n ôl a dringo i'r lan, safasom yno'n crynu wrth roi cyfweliadau i'r cyfryngau cyn ei throi hi am y crochenaid agosaf o goffi poeth. Aeth y prif grwp ymlaen â'r cynulliad wrth y rowndabowt a chwblhau'r brotest â phicnic. Cyn i ni gwblhau ein cynulliad, chwaraeodd Dave Mowat, ein trympedwr, y 'Last Post' wrth i ni sefyll yn ddistaw yn wynebu'r ffordd brysur, a'n baneri a'n placardiau o'n cwmpas. Roeddem yn teimlo ein bod wedi llwyddo i hysbysu pobl am swyddogaeth sinistr adeilad y WA ym Mryste. (Diau ei fod hefyd wedi galw sylw'r WA at rai o'r mannau gwan yn ei mesurau diogelwch!) Yn sicr, nid hon fydd y brotest olaf wrth Filton Hilton y WA. Gobeithio y bydd yr un nesaf hyd yn oed yn fwy o faint, a hyd yn oed yn fwy effeithiol. Daliwch i wylio'r gofod yma ...

***Margaret Jones***

# Mary Crofton (Mary-Milwyr-Mas) o Gasnewydd, Gwent

Roeddem wedi ei chymryd hi'n ganiataol y byddai'r ymgyrchydd oes yma dros heddwch a chyfiawnder gyda ni ar 27ain Awst i ddathu 20 mlwyddiant y daith enwog o Gaerdydd i Gomin Greenham a arweiniodd ar sefydlu Gwersyll Heddwch Menywod Comin Greenham ym 1981. Roedd Mary wedi ymuno â'r daith yng Nghasnewydd a cherdded gyda'r menywod, dynion a phlant cyn belled â Gwersyll yr UD yng Nghaerwent. Ond ar Fai'r 4ydd, bu farw Mary o drawiad ar y galon ar ôl salwch byr. Roedd yn 82 mlwydd oed. Mae ei marwolaeth yn golled aruthrol i'r mudiad heddwch yn ne Cymru.

Yn blentyn yn Limerick, cafodd Mary brofiad o galedi rhyfel yn agos adre wrth i'r Black and Tans ymladd â'r IRA yn y Rhyfel Cartref. (Byth er y Sul Gwaedlyd, chwaraeodd Mary ran weithgar yn y Mudiad 'Milwyr Mas' - dyna sut gafodd ei llysenw.) Gan ffoi o briodas dreisgar daeth Mary i dde Cymru gyda'i thri phlentyn, a chafodd waith yn Burghfield yn cydosod arfau yn defnyddio TNT. Roedd yn feichiog ar y pryd a phan aned ei phedwerydd plentyn yn anabl, doedd dim amheuaeth yn ei meddwl hi nad oedd hynny o achos y cemigolion.

Gweithiodd Mary gyda'r Undebau Llafur a'r Gwasanaeth Iechyd i geisio datgelu clwster lewcemia o gwmpas RAF Caerwent lle'r oedd TNT wedi cael ei ddefnyddio hefyd i gynhyrchu arfau. Roedd yn gwrthwynebu'r fasnach arfau ac arfau niwclear yn angerddol. Yn y 1980au bu'n gwrthdystio mewn llefydd fel Greenham, Molesworth a Burghfield. Brin flwyddyn yn ôl, cymerodd ran yn y gwarchae ar SAA Aldermaston a drefnwyd gan Trident Ploughshares. Ar ôl cwrdd â Mary ddim ond unwaith, fyddai neb yn gallu ei hanghofio gan ei bod mor gynnes a charedig tuag at bawb, a'i stôr ddihysbydd o straeon am ei brwydrau hi ei hun.

Doedd Mary ddim wedi tynnu nôl o'r frwydr mewn unrhyw fodd: rhwng Ionawr ac Ebrill eleni, bu'n cefnogi dioddefwyr hiliaeth gyda Chynulliad Cymru yn erbyn Hiliaeth a mynychodd gyfarfodydd ymgyrch Cydgadernid Palesteina a'r Blaid Lafur Sosialaidd. Bu farw Mary y diwrnod cyn digwyddiad 'Milwyr Mas' yng Nghaerdydd i goffáu'r streicwyr newyn. Aeth y digwyddiad blynyddol hwn yn deyrnged cyhoeddus i Mary a'i gwaith dros y blynyddoedd, ac yn fynegiant o gariad ac edmygedd gan deulu a ffrindiau.

Yn nghanol eu galar a'u tristwch, rhaid bod teulu Mary'n ymfalchïo yn ei bywyd egwyddorol, cariadus a hynod gynhyrchiol. Roedd yn un o emau'r mudiad heddwch ac yn fenyw mewn miliwn.

***Mary Millington (gyda chymorth Jackie Hill)***

# Dwy weithred dros heddwch wrth ffatri arfau Gymreig

Ymunodd aelodau CND Cymru ag Ymgyrchwyr Penarth yn erbyn y Fasnach Arfau i gynnal gwylnos a gwasanaeth ddydd Gwener y Groglith wrth glwydi ffatri British Aerospace (BAe), ROF Glascoed. Cynhaliwyd yr wylnos yr adeg y byddai'r gweithwyr yn newid shifft am 6.45am.

Mae'r ffatri hon yn cynhyrchu ffrwydron ar gyfer gynnau cymhedrol eu maint ac yn ganolfan ddosbarthu mân arfau fel pistolau, reifflau a gynnau peiriant. Pwrpas yr wylnos oedd tystio i bryderon ynglyn â gwerthu arfau i wledydd sy'n gormesu eu pobl eu hunain, ac i wledydd sy'n datblygu, a ddylai fod yn cysegru eu hadnoddau gwerthfawr i gyflenwi gwir anghenion eu pobl. Testun pryder mawr i'r grwp hwn yw fod 90% o bobl sy'n cael eu lladd a'u clwyfo gan arfau yn sifiliaid. Anerchodd David Morris, Cadeirydd CND Cymru, yr wylnos a siarad am y modd y dylai Cristnogion a rhai nad ydynt yn Gristnogion gydweithio dros achos Heddwch.

Er bod y grwp wedi gobeithio cyfarfod â chynrychiolydd y rheolwyr i drafod materion yn ymwneud â chynhyrchu a gwerthu arfau, dywedwyd wrth yr ymgyrchwyr nad oedd neb ar gael. Yn lle hynny, rhoddodd yr ymgyrchwyr lythyr i'r rheolwyr yn gofyn am eglurhad ar rai agweddau o gynhyrchu yng Nglascoed yn cynnwys defnyddio wraniwm hesb, a'r peryglon i'r boblogaeth leol.

Mewn gweithred ym mis Mai, a drefnwyd yr un pryd â Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol BAe, bu ymgyrchwyr yn atal cerbydau rhag mynd i mewn i'r ffatri a rhoi taflenni i'w gyrrwyr. Roedd David Morris a Ray Davies ymhlith y rheini a fu'n siarad â'r gweithwyr am beryglon amgylcheddol a gwleidyddol gwerthu arfau. Pwysleisiwyd y gellid defnyddio sgiliau pwysig i gynhyrchu eitemau ar gyfer heddwch, nid rhyfel. Dywedodd Ray yn ddiweddarach:

*"Roedd yr holl bicedu yn heddychlon, yn effeithiol ac yn werthchweil. Mae'r holl drais ym mhedwar ban - Dwyrain Timor, Palesteina, Macedonia - mewn rhyw fodd yn cael ei borthi gan y fasnach Brydeinig mewn arfau. Mae'n anodd credu y gall ffynhonnell y fath erchylltra fod yma yng nghefn gwlad hardd Cymru."*



heddweithredu!

**Cysyllter â Ray Davies (gweler Cysylltiadau) i gael gwybod am weithredoedd yn y dyfodol wrth ffatri BAe. I chwarae rhan yng Ngrwp YEFA Penarth, cysylltwch ag Alison Norris (029) 2021 4555 neu Clive Bate (01446) 737 440**

# Cynaliadwyedd wedi mynd i'r gwellt ar Fynydd Epynt




Dioddefodd bro Epynt yn y Canolbarth, sydd dan feddiant y fyddin, ynghyd ag erwau lawer o dir a chyrsiau dwr dros ardal ehangach, anrhaith pellach y gwanwyn yma pan ddewiswyd y maes tanio fel safle i losgi a chladdu celanedd clwy'r traed a'r genau. Dewiswyd y safle am ei fod yn hawdd atal mynediad iddo, a chadw pob gweithgaredd yn gyfrinach rhag llygad y cyhoedd a'r cyfryngau. Taflwyd difwynwyr a deunydd gronynnol i'r awyr gan y tanau anferth, i lanio pwy a wyr ble. Daeth yn amlwg fod daeareg a draeniad yr ardal yn gwbl anaddas a chyn hir roedd deunydd yn llygru'r cyrsiau dwr a, diau, y pridd a'r isbridd, er gwaethaf sicrwydd gan y Cynulliad ac awdurdodau eraill y byddai popeth yn iawn. Doedd popeth ddim yn iawn, ac ataliwyd y broses, gan adael tunelli lawer o farwor yn mudlosgi - a gweddillion anifeiliaid, plastigau a diheintyddion pwerus ar y mynydd o hyd.

Yn ystod y bennod warthus hon, trist ond diddorol oedd gwylio dadrithiad buan y bobl leol â gwleidyddion, ymateb eu cynrychiolwyr gwleidyddol, a'r amgyffred graddol ymhlith pobl gyffredin fod ganddynt rywfaint o bwer eu hunain. Roedd y bwlch dealltwriaeth rhwng y bobl a Chaerdydd a San Steffan yn llawer ehangach nag a ddeallodd neb o'r blaen.

Diddorol hefyd i ni sydd wrthi'n ymgyrchu i atal y niwed cymdeithasol ac amgylcheddol a achosir gan baratoadau at ryfel oedd datganiad monitoriaid Asiantaeth yr Amgylchedd. Fe ddwedon nhw na ellid ei chymryd yn ganiataol nad oedd llygredd diocsin ar y maes tanio eisoes cyn llosgi'r celanedd oherwydd y gweithgareddau milwrol beunyddiol yno. Datgelwyd hefyd y gorchmynwyd i'r fyddin, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, i beidio â llosgi eu gwastraff ar y mynydd am fod hynny'n gwasgaru lefelau uchel o lygryddion peryglus. Mae'r holl bennod druenus wedi datgelu tipyn gormod o drachwant dynol, diffyg tosturi tuag at anifeiliaid, difaterwch llwyr tuag at ein hamgylchedd, diystyriaeth o bobl mewn cymunedau cefn gwlad, a thaeogrwydd dall i farchnadoedd byd-eang. Cafodd ein Cynulliad ei wneud i edrych fel pyped dideimlad San Steffan a 'Chymru Gynaliadwy' yn jôc wael. Prin fod hyn yn sylfaen dda iawn ar gyfer adeiladu heddwch a chyfiawnder, a go brin mai dyma roeddem wedi gobeithio amdano o ran dyfodol Cymru a'i phobl.

*Jill Stallard*

# CND Pen-y-bont ar Ogwr yn mynd i'r afael â'r Cyngor

ARDAL DDI·NIWCLIAR
NUCLEAR FREE ZONE

Mae Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei annog i ailystyried ar ôl cefnu'n sydyn ar Fforwm yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear y bu'n aelod ohono ers 20 mlynedd. Methodd piced ar y Cyngor gan aelodau o CND Pen-y-bont ar Ogwr gael y grwp Llafur i godi 'chwip' oddi ar ei fwyafrif mawr. Ddim ond 48 awr cyn y bleidlais, dywedodd arweinydd y blaid Lafur, Jeff Jones, wrth ei grwp na allai'r Cyngor fforddio'i danysgrifiad blynyddol o £1200 ac nad oedd yn credu fod ALlDN yn cynnig gwerth am arian. (Amcangyfrifir y bydd gwariant Pen-y-bont ar Ogwr y flwyddyn nesaf yn tynnu am £200 miliwn.)

Mae'r newid agwedd ar ran Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi drysu llawer o gynghorwyr yn ogystal ag amgylcheddwyr lleol ac aelodau CND. Roedd yr arweinydd Jeff Jones ar un adeg yn un o gefnogwyr brwd ymgyrch Morgannwg Ddi-niwclear yn erbyn byncar Pen-y-bont ar Ogwr a chafodd ei ddarddel o'r grwp Llafur. Ar ôl 20 mlynedd o gefnogaeth i Gymru Ddi-Niwclear, disgwylid y byddai'r Cyngor yn adnewyddu ei aelodaeth yn otomatig. Ond yn y Grwp Llafur, dilynodd yr arweinyddiaeth safbwynt digymrodedd (Llafur Newydd?) a honnir iddynt gefnogi Trident ac arfau WH a hyd yn oed fynegi pryder y byddai'r gwrthbleidiau'n ymosod arnyn nhw am 'gam-wario arian cyhoeddus'.

Llwyddodd CND i ddadlau'r achos gyda Phlaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol, ac er bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi Trident, galwodd y ddwy blaid am ohirio'r argymhelliad. Ymwrthododd sawl aelod Llafur â'u plaid eu hunain yn cynnwys Cynghorydd hyn a chyn-gynrychiolydd i'r ALlDN, y Cynghorydd Dick Powell a siaradodd o blaid y Fforwm. Dadleuodd fod y penderfyniad "yn rhoi'r arwydd anghywir ac y gallai fod yn drychinebus i Ben-y-bont, yn enwedig pe bai problemau'n codi yng Ngorsaf Ynni Niwclear Hinkley Point yng Ngwlad yr Haf, ddim ond 20 milltir i ffwrdd.'

Dywedodd Secretariat Cymru ALlDN, sef Cyngor Rhondda Cynon Tâf ar hyn o bryd, ei fod wedi ei synnu gan benderfyniad Pen-y-bont ar Ogwr ac y byddai'n cysylltu â'r Cyngor. Mae CND Pen-y-bont ar Ogwr newydd gael ei ail-lawnsio, denwyd aelodau newydd a chafodd ymgyrch y grwp stori fawr a llun yn y Glamorgan Gazette oedd yn cynnwys llythyron yn ymosod ar benderfyniad y Cyngor hefyd. "Efallai bod gwrthdroi'r penderfyniad wedi bod yn ffit o nerfau' meddai Tony Simpson. "Er mor siomedig ydym, mae wedi galw sylw at y mater ac wedi'n gwneud ninau'n fwy gwyliadwrus. Allwn ni ddim cymryd dim yn ganiataol. Rydym yn hyderus, pan fydd y cynghorwyr yn ystyried y mater yn ofalus, y gellir dadwneud y penderfyniad, a bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn fwrdeistref ddi-niwclear unwaith eto."
Mae gan fudiad yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear (ALlDN) 100 o Gynghorau yn aelodau, yn cynnwys 16 o'r 22 Cyngor Cymreig. Heb law am Ben-y-bont ar Ogwr, nid yw'r awdurdodau lleol Cymreig a ganlyn yn aelodau: Wrecsam, Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Powys a Chonwy.

***Tony Simpson***

heddweithredu!

- **Os ydych yn byw o fewn Awdurdod sydd heb adnewyddu ei aelodaeth ALlDN, gall CND Cymru neu CND Pen-y-bont ar Ogwr gynnig cyngor i chi ar lobïo eich cynghorwyr. Cysyllter â Tony Simpson (01656 721 441) .**
- **Mae'r ALlDN yn annog Cynghorau i gyflwyno penderfyniadau yn gwrthwynebu cynlluniau 'Amddiffyn Taflegrau' yr UD ac 'arfau gofod' a danfon rheini at ASau a'r Llywodraeth.**

**Cynhelir Cynhadledd Flynyddol yr ALlDN ar Ledaeniad a Chludiant Plwtoniwm yn Glasgow ar Hydref 25ain. Am fwy o wybodaeth, cysyllter â Stewart Kemp (0161 234 3244) ebost: nfznsc@gn.apc.org**

## Diolch i Sarah Isaacs

Ffarwel i annwyl Sarah ... sydd wedi ymadael â Llangamarch a mynd i fyw yn Awstralia. Gweithiodd yn galed iawn drosom, yn lobïo cynrychiolwyr etholedig, cymryd rhan mewn gweithredu uniongyrchol - yn Faslane, Criggion ac Aldermaston, rhoi sgyrsiau i grwpiau myfyrwyr, a gwnaeth rai cysylltiadau pwysig i CND Cymru. Byddwn yn gweld ei cholli'n fawr iawn, ond pob dymuniad da iddi yn ei bywyd disglair, antipodeaidd newydd! Efallai y caiff rywun gipolwg arni'n ymgyrchu y tu allan i Pine Ridge, fersiwn Awstraliaidd yr hemisffer deheuol o wersyll ysbïo Menwith Hill, rhan o gynlluniau "Amddiffyn Taflegrau" yr UD.

# Beth sy'n digwydd yn Menwith Hill?

Mae gwersyll Menwith Hill yn cael ei rentu oddi wrth yr RAF gan Asiantaeth Ddiogelwch Genedlaethol yr UD (NSA) ac mae'n gartref i fwy na 1,000 o weithwyr NSA Americanaidd. Gorsaf wrando ydyw yn bennaf, sy'n codi negeseuon ffôn, ffacs ac ebost rhyngwladol drwy gyfrwng system sbïo ECHELON dan arweiniad America. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys dwy o'r radomau 'peli-golff' mae George Bush am ganiatâd i'w defnyddio fel 'llygaid a chlustiau' ei system 'Star Wars' arfaethedig.




## Pryderon Ewropeaidd

Mae NSA Menwith Hill, ynghyd â Fylingdales, yn hanfodol i raglen Amddiffyn Taflegrau America. Mae swyddogaeth Menwith Hill yn y system ECHELON ar fin ehangu pan fydd y gwersyll yr UD yn Bad Aibling yn yr Almaen yn cau y flwyddyn nesaf. Pan ymwelodd aelodau o bwyllgor Ewropeaidd sy'n archwilio oblygiadau ECHELON i hawliau dynol â Swydd Efrog ar Fehefin 29ain, chawson nhw ddim mynediad i'r gwersyll.

## Pryderon awdurdodau lleol

Mae'r awdurdod lleol, Cyngor Bwrdeistref Harrogate, wedi cwestiynu'r cynlluniau ar gyfer dyfodol y gwersyll. Mewn llythyr at y Prif Weinidog, ysgrifennodd y Prif Weithredydd:

*"...mae pryder y gallai defnyddio Menwith Hill i'r diben hwn (Amddiffyn Taflegrau) fod yn gyfrwng gwneud Menwith Hill yn darged i frawychwyr, gan roi'r gymuned hon mewn llawer mwy o berygl gan weithgareddau brawychwyr nag y byddid wedi disgwyl fel arall ... Carem hefyd nodi pe bai'r gwersyll yn mynd yn ffocws genedlaethol i brotestio (er enghraifft, fel ddigwyddodd yng Nghomin Greenham), byddai canlyniadau sylweddol i lywodraeth leol yn yr ardal hon."*

Mae CCC yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear wedi pasio cynnig yn unfrydol yn galw ar y llywodraeth Brydeinig i ddatgan yn glir na fydd yn cynorthwyo 'rhaglen amddiffyn taflegrau genedlaethol' yr UD drwy ganiatáu defnyddio naill ai Menwith Hill neu Orsafoedd Fylingdales i'r diben hwn.

## Gweithio gyda'n gilydd i atal Star Wars

Cynhelir gwylnosau beunydd yn Menwith ac mae gan y Gwersyll Heddwch Menywod achlysuron gynlluniau i fynd yn wersyll parhaol (gweler isod). Ar Orffennaf 3ydd bu gweithredwyr heddwch o bedwar ban y byd, yn cynnwys Rod Stallard ac eraill o Gymru, yn cymryd rhan mewn gweithred uniongyrchol ddi-drais a drefnwyd gan Greenpeace yn Menwith Hill i gyd-daro â Diwrnod Annibyniaeth America. Yn angerddol, ond mewn hwyliau da, aeth hanner cant o wirfoddolwyr Greenpeace, lawer ohonyn nhw'n cario baneri'n dweud "Star Wars Starts Wars" ac eraill wedi eu gwisgo fel taflegrau i gynrychioli'r ras arfau newydd y bydd Star Wars yn ei chreu, i mewn i'r gwersyll drwy'r glwyd flaen gan chwarae cerddoriaeth y ffilm 'Mission Impossible'. Llwyddodd dau grwp arall o wirfoddolwyr i osgoi heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n gwarchod y safle, a dringo cyfres o ffensys weiren bigog deuddeg troedfedd i fynd i mewn i galon y gwersyll. Meddiannodd un grwp do twr dwr a'r tir o gwmpas y radomau mae Bush am eu defnyddio fel rhan o'r cynllun 'Star Wars', a meddiannodd y grwp arall do y 'stafell reoli'. Dywedodd Cyfarwyddydd Gwaith Greenpeace y DU, Stephen Tindale:*'Mae dau safle yn y DU - yma yn Menwith Hill ac un arall yn Fylingdales - mae ar George Bush eu hangen fel 'llygaid a chlustiau' ei system Star Wars arfaethedig. Ond all Bush ddim osod y system i mewn heb gymeradwyaeth Blair. 'Anogwn Tony Blair i beido ag ildio i Bush ar fater o'r fath bwys hanfodol. Rhaid iddo ddweud na wneith y DU gymryd rhan ac atal Star Wars yn y fan a'r lle'.*

Y gwersyll arall yn y DU sy'n debyg o chwarae rhan yng nghynlluniau Bush yw Fylingdales (sydd hefyd yn swydd Efrog) sy'n cynnwys radar 'X Band' nerthol 40 meter o uchder. Mae ar lywodraeth yr UD angen caniatâd hefyd gan lywodraeth Denmarc i ddefnyddio gorsaf radar debyg yn Thule, Yr Ynys Las.

- **Gwylnosau: bob nos Fawrth 7-9pm yn Menwith Hill. Cysyllter â CAAB: 01943 466405** heddweithredu!
- **Gwersyll Heddwch y Menywod: (01943) 468 593**
- **Bydd CND y tu allan i Lysgenhadaeth yr UD yn Grosvenor Square, Llundain yr un noson ag unrhyw brawf, ac am 12.00pm ar y Sadwrn yn dilyn y prawf (cysyllter â 020 7700 2393).**
- **Hydref 13eg Diwrnod Rhyngwladol o Weithredu yn erbyn 'Amddiffyn Taflegrau'. Y llynedd, cynhaliwyd 63 gweithred mewn 16 gwlad ar yr un diwrnod. Er mwyn cymryd rhan mewn gweithred yng Nghymru, neu os ydych am drefnu eich gweithred eich hun, cysylltwch â Rod Stallard (gweler Cysylltiadau tud. 16).**
- **Benthycwch neu brynwch (£5) fideo 30-munud ardderchog Karl Grossman, "Star Wars Returns" gan CND Cymru (gweler Cysylltiadau tud. 16) a'i wylio, ei ddangos i'ch ffrindiau, a thrafod y materion mae'n eu codi.**
- **Archebwch daflenni stryd gan UNA Cymru (01792 869 267) neu CND Cymru (gweler Cysylltiadau tud. 16) a dosbarthwch daflenni i'ch stryd/cymdogaeth/ffrindiau.**
- **'Sgrifennwch at y wasg leol yn mynegi eich gwrthwynebiad i 'Star Wars'. Gwybodaeth ar gael gan CND Cymru neu CND Swydd Efrog (01274 730 795) www.yorkshirecnd.org.uk**
- **Prynwch y llyfryn "The UK and Star Wars" gan CND Cymru (£1 yn cynnwys cludiant, sieciau'n daladwy i "CND Cymru", gweler Cysylltiadau tud. 16)**

# Carchar am dorri'r ffens yn Menwith Hill

Rhyddhawyd Helen John ac Anne Lee, a garcharwyd (3 mis i'r naill, 2 fis i'r llall) am dorri'r ffens yn Menwith, o Garchar Askham Grange ddydd Mercher 20fed Mehefin. Rhyddhawyd Anne i dreulio gweddill ei dedfryd o ddeufis ar ddilead a Helen i bob golwg i dreulio gweddil ei dedfryd o dri mis ar 'Gyrffyw Carchariad Cartref" [tagio electronig]. Wrth iddynt gamu drwy ddrws y carchar, restiwyd Helen gan dri swyddog o Heddlu Swydd Efrog, ar warant a gyhoeddwyd gan Lys Siryf Caeredin. [Mae'r trap deche yma yn dangos cydgynllwynio rhwng awdurdodau'r carchar a'r heddlu.]
Gwrthodwyd mechnïaeth i Helen ac fe'i cadwyd yn y ddalfa i ddisgwyl achos rhwng Gorffennaf 24ain a'r 26ain am beintio sloganau yn erbyn Star Wars, Trident ac arfau WH ar adeilad Senedd yr Alban ac Uchel Lys Caeredin yn ogystal â gweithredoedd uniongyrchol di-drais yn Faslane. Mae hi'n debyg o gael ei dedfrydu i garchar.

Mae Angie Zelter, a gymerodd ran yn y weithred ar ffens Menwith hefyd, yn dal i ddisgwyl cael ei dedfrydu. Mewn ymgais i ymuno â Helen ac Anne yn y carchar, ildiodd ei hun i ddwylo Heddlu Cromer yn Norfolk, ac aed â hi i Lys Ynadon Harrogate lle gwrthododd yr ynadon ymdrin â'i hachos, ei dad-restio a dweud wrthi am ddod yn ôl mewn dwy wythnos. Gwrthododd Angie, gan ddweud nad oedd ganddi arian i dalu ei ffordd yn ôl i Norfolk. Dwedodd yr ynadon nad mater iddyn nhw mo hynny!

## Ymgyrch Dim 'Star Wars' Etholiad 2001 yn erbyn Tony Blair

Pan gafodd ei restio gyntaf am y weithred ym Menwith, roedd Helen John yn sefyll fel ymgeisydd annibynnol yn erbyn Tony Blair yn ei etholaeth yn Sedgefield ar lwyfan 'Dim Star Wars'. Roedd yn sicr yn amheus iddi dderbyn dedfryd mor anarferol o hir yn union cyn yr etholiad ac ymweliad George Bush â Lloegr. Aeth llawer o fenywod i ymgyrchu yn Sedgefield ar fyr rybudd. Ymunodd Cadeirydd CND Cymru, David Morris ag eraill, yn cynnwys Tony Benn, i geisio dylanwadu ar yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd, Jack Straw, a wrthododd ildio a rhoi caniatâd i Helen i fynychu'r Cyfrif ar Fehefin 7fed, ei hawl ddemocrataidd. Roedd maniffesto etholiad Helen John yn cysylltu Star Wars, Trident, diffyg cyfiawnder economaidd byd-eang a diffyg cyllid ar gyfer gofal iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol, a chafodd ei ddosbarthu i'r 38,000 o etholwyr cyn yr etholiad. Mae wedi gofyn i Mr Blair beidio â chefnogi polisïau gwrth-fenywod, gwrth-amgylchedd, gwrth-lafur, militaraidd Bush, sydd oll yn rhan o'i becyn asgell dde eithafol.

## Tony'n gorfod gwrando

Ar noson yr etholiad, darllenwyd araith Helen allan ger bron pawb oedd yn bresennol. Rhaid oedd i'r Prif Weinidog wrando. Heriodd y rheini a aeth i'r Cyfrif (yn gwisgo sashiau gwyrdd, gwyn a fioled y Swffragetiaid gyda'r geiriau "NO STAR WARS' arnynt Tony Blair am ei gefnogaeth i gynigion Amddiffyn Taflegrau yr UD. Atebodd yntau eu bod yn dal ar ei ddesg. Bu'r ymgyrch etholiadol yn strategaeth effeithiol i gael cefnogwyr i weithredu a chodi mater "Star Wars" gyda'r etholwyr a'r cyhoedd cyffredinol. Roedd bod ag ymgeisydd yn y carchar yn dipyn o ryfeddod!

heddweithredu!

**Dywedodd Anne fod derbyn BWNDELI o lythyron yn un o uchafbwyntiau ei chyfnod yn y carchar - daliwch i ddanfon at Helen! Ei chyfeiriad yw: Helen John, HMP Cornton Vale, Cornton Road, Stirling SK9 5NU, Yr Alban.**

*Helen John*
*Carchar Cornton Vale,*
*Stirling*

*Gair bach o'r Alban Deg i holl wyrda a gwragedd da Cymru: RHYDDID!*

*Dwi wedi dadebru wedi'r daith i fyny yma a dwi'n edrych ymlaen at y ddau achos llys ym mis Gorffennaf. Mae bod mewn cell yn rhoi amser i chi feddwl a dwi bellach yn credu ein bod ni wedi ei chamddeall hi'n llwyr! Mae'r Arglwydd Adfocat, gwr hyddysg, wedi dweud "ar hyn o bryd" nad oes "dim o'i le" ar arfau niwclear, "maen nhw'n gwbl gyfreithlon". Erbyn hyn dwi'n ei gredu (o na bawn i wedi deall hynny pan oeddwn i'n iau).*

*Felly, dwy'n awgrymu y dylem gyfrannu arian a phrynu ein mwyngloddiau wraniwm ein hunain a chynhyrchu arfau niwclear ar gyfer yr holl wledydd tlawd yn y byd na chafodd gyfle i fod yn heddgeidwaid mor wych â'r UD a Phrydain (a gweddill y clwb niwclear). Gallwn ailymaflyd yn ein menter a chael ein hadnabod fel y Cyflenwyr Niwclear* ***D****iweddaraf (cwmni ccc, wrth gwrs). Gallem lawnsio ein menter newydd â thipyn o glec! A garai unrhyw un fod yn Gadeirydd y fenter newydd hon? Bydd ffurflenni cais ar gael gan Lywodraethwr Broadmoor.*
*Broadmoor yw enw un o 'Gyfleusterau Cefnogol' Pencadlys Gofod yr UD yn Colorado. Enw sy'n taro i'r dim.*

*Wel, da chi, meddyliwch am y cynnig hwn, gan wybod y byddai'i yn y dyddiau nesa 'ma yn gallu dweud wrth Lys Albanaidd mor wych yr ydynt, gan eu bod wedi fy helpu i weld y goleuni fel na bydd rhaid i mi dywyllu pyrth Tai Ymwelwyr Ei Mawrhydi eto, neu fynd yn frawychwraig o dan gynlluniau newydd Mr Blair i ddychryn hen bensiynwyr bach fel fi oedd yn arfer hoffi chwarae â brwsys paent a bollt-dorwyr!*
*Dyna groten ddwl fues i!*
*Allwch chi i gyd faddau i fi?*

*Helen*
*O.N. SGERSLI BILÎF!*



## 50% o ASau Cymru'n mynegi amheuon difrifol am 'Amddiffyn Taflegrau' yr UD

Da chi, sgrifennwch ar eich AS yn gofyn iddi/iddo arwyddo (neu gefnogi os ydynt mewn swydd gyda'r llywodraeth ac yn methu arwyddo) y Cynnig Boreol (EDM) rhif 23, 'Missile Defense', os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny. Amgaewch destun yr EDM (isod) gyda'ch llythyr. Mae'r EDM yn cefnogi casgliadau'r Pwyllgor Materion Tramor a gadeirir gan AS Dwyrain Abertawe, Donald Anderson. Mae 253 o ASau wedi arwyddo hyd yn hyn.

*Fod y ty hwn yn mynegi pryder parthed bwriad yr Arlywydd Bush i symud y tu hwnt i gyfyngiadau'r Cytundeb Taflegrau Gwrth-Falistig wrth ddatblygu amddiffyn taflegrau: ac yn cymeradwo casgliadau unfrydol y Pwyllgor Dethol ar Faterion Tramor a argymhellai y dylai'r llywodraeth leisio'r amheuon mwyaf difrifol am NMD yn y DU, a gwestiynai a yw cynlluniau'r UD i fwrw ymlaen ag NMD yn ymateb priodol i'r problemau lledaeniad a wynebir gan y gymuned ryngwladol, ac a argymhellai y dylai'r Llywodraeth annog UDA i archwilio pob ffordd o leihau'r bygythiad mae'n ei ganfod.*

**ASau Cymreig sydd wedi arwyddo EDM 23:** Hywel Francis (Llafur Aberafan),Paul Flynn (Llafur Gorllewin Casnewydd),Jackie Lawrence (Llafur Preseli Penfro),Roger Williams (Democrat Rhyddfrydol Brycheiniog a Maesyfed), Lembit Opik (Democrat Rhyddfrydol Maldwyn),Ann Clwyd (Llafur Cwm Cynon),Martin Caton (Llafur Gwyr),Alan Williams (Llafur Gorllewin Abertawe),Ian Lucas (Llafur Wrecsam), Albert Owen (Llafur Ynys Môn),Llew Smith (Llafur Blaenau Gwent),Win Griffiths ( Llafur Pen-y-bont ar Ogwr),Raymond Powell (Llafur Ogwr), Dai Harvard (Llafur Merthyr Tudful a Rhymni), Betty Williams (Llafur Conwy), Elfyn Llwyd (Plaid Cymru Meirionnydd Nant Conwy), Martyn Jones (Llafur De Clwyd), Chris Ruane (Llafur Dyffryn Clwyd), Huw Edwards (Llafur Trefynwy), Julie Morgan(Llafur Gogledd Caerdydd),Kevin Brennan (Llafur Gorllewin Caerdydd)),Denzil Davies (Llafur Llanelli), Simon Thomas (Plaid Cymru Ceredigion)



## cysylltiadau cnd cymru

**golygydd *heddwch* ac ymholiadau cyffredinol:**
Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri SA20 0LR (01550) 750260

**cadeirydd:**
**David Morris**
(01792) 206968

**is-gadeiryddion:**
**gogledd cymru**
Dave Andrews (01978) 310491
**y canolbarth**
Olwen Davies (01970) 611994
Rod Stallard (01550) 750260
**de cymru**
Ray Davies (029 20) 889514

**aelodaeth**
Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN
**cysylltiadau:**
Rhoda Jones (01766) 762739
**masnachu**
Jan Henderson (01792) 830330
**trysorydd**
Jean Bryant, 16 Ty'n y Cymer Close, Porth, Y Rhondda CF39 9DE

## heddwch

heddwch@nantgaredig.freeuk.com

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru). Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd. Croeso i sylwadau, llythyron ac erthyglau - cysylltwch â'r golygydd, os gwelwch yn dda.**

## dyddiadau dyddiadur

**Awst 6ed Dydd Hiroshima**

Caerdydd, Parc y Rhath - 8pm digwyddiad coffa gyda Côr Cochion Caerdydd (cysyllter â Ray Davies (029 20 889 514)
Gerddi Coffa Llandrindod - 11.30am ar gyfer plannu coed am 12.00pm yn y Gerddi Coffa gyda'r Maer. Ceisiwch ddod, da chi. (Cysyllter â Sian Meredudd (01597 823 547)
Dinbych, Yr Eisteddfod Genedlaethol digwyddiad coffa ar y Maes (cysyllter ag Awel Irene (01766 771 100)
Abertawe, Y Gerddi Addurniadol, Parc Singleton 8pm ymgynnull wrth Goeden y Colomennod, cysyllter â Fiona neu Mike Hayes (01792 367 807)

**Gorffennaf 27ain tan Awst 11eg Peaton Wood, Coulport:** Gwersyll haf diarfogi Trident Ploughshares - dwyn gwarchae, torri'r ffens a pheintio, gweithdai ar sgiliau ymgyrchu gyda gweithredwyr rhyngwladol! Cysyllter â (0845 45 88 366) am fwy o wybodaeth a phecyn cefndir. www.tridentploughshares.org

**Awst 4ydd - 11eg Y Babell Heddwch, Eisteddfod Genedlaethol Dinbych.**
Help, os gwelwch yn dda! Croeso i siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a phawb! Mynediad am ddim i wirfoddolwyr Cysyllter â Rod Stallard (gweler Cysylltiadau).

**Awst 9fed Dydd Nagasaki Caerdydd, Yr Ais 12pm - 1pm**
Canu coffa, Côr Cochion Caerdydd. Angen pobl na fydd yn canu i ddosbarthu taflenni cysyllter â Ray Davies.
Dinbych, Yr Eisteddfod Genedlaethol digwyddiad coffa ar y Maes (cysyllter ag Awel Irene (01766 771 100)

**Awst 27ain Dathlu Greenham! I ddathlu ugainmlwyddiant Taith Gerdded 1981 o Neuadd y Ddinas, Caerdydd i Wersyll Taflegrau Niwclear Cruise yr UD, Comin Greenham! 11.00 am** (ymgynnull tu allan i Neuadd y Ddinas, Caerdydd) cerdd i'r Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd. Cyfle i ddod ynghyd, cwrdd â hen ffrindiau, dathlu ein llwyddiannau, cydnabod y bygythiad i heddwch sy'n ymhlyg yng nghynlluniau'r UD i ymladd rhyfeloedd yn y gofod gan ddefnyddio canolfannau'r UD ym Mhrydain, ac i ailddatgan ein hymrwymiad i ddyfodol di-niwclear. Bydd placiau coffa Taith Gerdded Greenham hardd yn cael eu dadorchuddio'n swyddogol yng Nghaerdydd a Chasnewydd.
Croeso i'n holl ffrindiau: rhai oedd ar y daith gyntaf, eu teuluoedd, gwersyllwragedd heddwch Greenham (o bob cyfnod a phob clwyd), Menywod Greenham ym mhob man a phob ymgyrchydd dros heddwch.
Gwybodaeth: Sue Lent (029 20493 980)

**6pm Digwyddiad Coffa Greenham gyda'r nos** yn Nhy Eglwys y Gymuned, Ffordd Eton, Casnewydd (lle treuliwyd y noson gyntaf ar y ffordd i Greenham) gwybodaeth: Ruth Osborn (01633 251 548)

**Hydref 6ed Llandrindod Cyfarfod Blynyddol CND Cymru 11.00am. Gwahoddir cynigion (erbyn Awst 31ain) Enwebiadau ar gyfer Cadeirydd, 4 Is-gadeirydd a Thrysorydd (erbyn Medi 7fed).Danfonwch at : Brian Jones (gweler Cysylltiadau)**
**Manylion lleoliad gan Rod Stallard (gweler Cysylltiadau)**

Golygu a chysodi gan Jill Stallard (01550) 750260
(heddwch@nantgaredig.freeuk.com)
Cyfieithu gan Siân Edwards (sian@derwen.demon.co.uk)
Argraffwyd gan Redkite Print (01591) 610844 (Redkite@onyxnet.co.uk)


# cnd cymru

**yr ymgyrch dros ddiarfogi niwclear**

**Rhagfyr 2001**

# cyfiawnder nid rhyfel!

ffeithlen weithredu




**O Wrecsam i Aberteifi, Bangor i Gasnewydd, mae gweithredoedd uniongyrchol yn erbyn y rhyfel, ralïau, gwylnosau a chyfarfodydd cyhoeddus wedi eu trefnu gan unigolion, grwpiau gwrth-ryfel, cymunedau a mudiadau crefyddol yn dal i ddigwydd ledled Cymru. Wrth i hynt y rhyfel newid yn y papurau newydd, mae'n neges ninnau yn dal yr un fath boed yn gyfnod o erchylltra neu 'heddwch' dros-dro': heb wir gyfiawnder ni fydd gwir heddwch. Mae bwysig fod ein neges yn galw am gyfiawnder yn cael ei chlywed yn gyson ac yn glir. Rhaid i bob un ohonom weithredu i ysbrydoli ac ymbweru eraill i weithredu a gweld yn union beth yw rhyfel a phob trais, sef cynnyrch militariaeth a hanes sy'n llawn anghyfiawnder gormesol.**

* Mae CND Cymru yn condemnio anfadwaith brawychol unrhyw le yn y byd. Ni all dim byd gyfiawnhau'r troseddau ofnadwy hyn.

* Rydym yn gwrthwynebu ymosodiadau milwrol ar Afghanistan, Irac neu unrhyw wledydd eraill. Ni all ac ni fydd rhyfel yn lleihau'r perygl o ymosodiadau brawychol. Rhaid mynd i'r afael ag achosion sylfaenol brawychiaeth. Mae trais yn esgor ar drais. Mae rhyfel a pharatoi ar gyfer rhyfel yn achosi niwed mawr iawn i'r amgylchedd, yn cynyddu'r ymdeimlad o anghyfiawnder ymhlith pobl dan ormes a heb bwer ym mhedwar ban y byd, ac yn creu amgylchedd ffrwythlon o ran denu pobl i fynd yn frawychwyr. Dim ond ar sail cyfiawnder, cydweithrediad, dealltwriaeth a pharch y daw diogelwch i holl bobloedd y byd, nid drwy gynnydd parhaus mewn gwariant milwrol.

* Credwn y dylai'r Unol Daleithau a Phrydain fwrw ymlaen ar sail cyfraith ryngwladol, gan ddilyn Siarter y CU, a gweithio drwy ddulliau arferol y gyfraith estraddodi, i ddod â'r rheini a gyflawnodd unrhyw anfadwaith ger bron llys barn. Byddai dilyn proses y gyfraith, nid proses rhyfel, yn ateb llawer mwy deallus.

* Rhaid atal ymosodiadau ar Fwslemiaid a rhagfarn yn eu herbyn, â rhaglen weithredol i annog dealltwriaeth rhwng grwpiau ac unigolion yng Nghymru a ledled y byd.

* Rydym yn gwrthod yr erydu ar ein hawliau sifil yn enw gwrth-frawychiaeth. Ni allwn amddiffyn rhyddid drwy ei ddinistrio.

* Rydym yn ymrwymedig i ymgyrchu yn erbyn y 'rhyfel' yma drwy ddulliau di-drais.

# RALI WRTH-RYFEL GENEDLAETHOL CYMRU
# ABERYSTWYTH
## 26ain Ionawr 2002 12pm (i'w gadarnhau)
## BYDDWCH YNO!
Cysylltwch â'ch grwp agosaf neu CND Cymru

# Gweithredwch dros heddwch a chyfiawnder!




## 1. Sgrifennu llythyron:
Daliwch ati i sgrifennu at eich ACau, ASau, ASEau a/neu'r Prif Weinidog (cyfeiriadau isod). Mynegwch eich teimladau gan ddefnyddio rhai o'r pwyntiau ar y ffeithlen hon ac ychwanegu eich rhai eich hun. Ni yw cyflogwyr y cynrychiolwyr gwleidyddol hyn.

## 2. Dwedwch wrth y wasg a'r cyfryngau:
Mae angen cyfleu'r neges wrth y wasg ar lefel genedlaethol a lleol. Cadwch eich negeseuon yn gryno ac yn glir, daliwch i sgrifennu - peidiwch â gadael iddyn nhw feddwl nad ydyn ni'n poeni bellach. Cymerwch ran mewn rhaglenni ffonio i mewn ar y radio a rhaglenni trafod.

## 3. Gwylnosau, gwrthdystiadau a chyfarfodydd:
Mae grwpiau gwrth-Ryfel wedi cael eu sefydlu ledled Cymru, chwaraewch eich rhan!

## Detholiad o wylnosau a chyfarfodydd wythnosol:
***Llun:***

**Pen-y-bont ar Ogwr:** 5-6pm gwylnos York Place (George Crabb 01446 774452)
**Bangor:** 6pm - gwylnos tu allan i'r Bwa Coffa, Ffordd Deiniol.
**Bangor:** 6.45pm - cyfarfod trefnu yn y Bwa Coffa (Ben Gregory 01286 882359)
**Llanelli:** 5.30pm - gwylnos - Eglwys Unedig Ddiwygiedig y Parc, Murray St (Kathryn Price 01554 772488)
**Casnewydd:** 5pm - gwylnos - Senotaff; 7.30pm (Theresa Goss 02920 499579)
**Casnewydd:** 7.30pm Cyfarfod Clymblaid - Old Rising Sun
**Caerdydd:** 7.30pm - *Achosion a chanlyniadau'r rhyfel yn erbyn Afghanistan* Cyfres o seminarau agored ar faterion allweddol Ty Cwrdd y Cyfeillion, 43 Heol Siarl. ( Ray Davies 02920 889514 )
**Abertawe:** Gwylnos Ddistaw'r Crynwyr 10-10.30am Page Street (01792 299532)

***Mawrth:***

**Y Fenni:** Cyfarfod y Grwp Heddwch a Chyfiawnder 7.30pm - Neuadd Eglwys North Street (Stephen Kay 01873 853384)

***Mercher:***

**Machynlleth:** gwylnos -11am - cloc y dre (Lisa Brown: brown@harlech.ac.uk)
**Trefdraeth:** gwylnos - 6.30-7.30 (Maureen Bennett 01239 820793)
**Crymych:**- gwylnos - 6.30-7.30

***Iau:***

**Aberystwyth:** gwylnos - 6-7pm Siop y Pethe (Olwen Davies 01970 611994)

***Gwener*** :

**Caerdydd:** 5pm - gwylnos wrth Gerflun Aneurin Bevan (Ray Davies 02920 889514)

***Sadwrn:***

**Abertawe** :10-11am Gwylnos Quadrant (01792 830330)
**Abertawe:** 11-12pm Gwylnos Olau Cannwyll, Oxford St. (01792 458701)

## Cyfeiriadau:
**Eich AS,** Ty'r Cyffredin, Llundain SW1 0AA
**Tony Blair MP,** 10, Downing Street, Westminster Llundain SW1A 2AA
**Aelodau'r Cynulliad**: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ty Crucywel, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA ebost: ee: dafydd.wigley@wales.gov.uk

## Cysylltiadau Eraill:
**Y Fenni:** Elizabeth Rackham 01873 890385
**Aberystwyth:** Dafydd Morgan Lewis 01970 624501 or Bob Miander 01970 623252,
**Grwp Gwrth-Ryfel Y Myfyrwyr Aberystwyth:** abersaw@yahoo.co.uk
**Aberhonddu:** Mike Gatehouse mike@keen.demon.co.uk, 01874 658564
**Caernarfon:** Anna Jane Evans 01286 672257
**Caerdydd/De-dd Cymru:** Clymblaid Atal y Rhyfel: Lila Haines 02920 898713
**Aberteifi:** Paul Hawkes 07812 711 501
**Caerfyrddin:** Alma Roberts 01269 870488
**Caer:** Harry Kingham 01244 340188
**CND Cymru:** Rod/Jill Stallard 01550 750260 heddwch@nantgaredig.freeuk.com
**CND Cwm Cynon**: Michelle 01685 879842
**Treffynnon:** David McKnight 01352 711416
**Llambed:** Ian O'Reilly podling22@yahoo.com
**Castell-nedd:** Alan Thomson 07813809238
**Penygroes**: Angharad Tomos 01286 882134
**Pontypridd:** Dominic MacAskill 07779 140118
**Porthmadog:** Awel Irene 01766 771100 )
**Abertawe:** swanseacoalition@yahoo.co.uk
Wrecsam huw_gruffudd@yahoo.co.uk, 07747 792441 David Bradley (01978) 311 564
**Clymblaid Atal y Rhyfel De Cymru** (07815 775819) <swcoalitionagainstthewar@hotmail.com >

**Clymblaid dros Heddwch Cyfiawn: I dderbyn bwletinau gwrth-ryfel ebost, tanysgrifiwch drwy ddanfon ebost gwag at: just-peace-subscribe@yahoogroups.com.**

*cnd cymru rhagfyr 2001*